



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
RHONDDA CYNON TAF  
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR**

C Hanagan  
Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau  
Llywodraethol  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf  
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian  
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Julia Nicholls - Gwasanaethau Democrataidd (01443 424098)

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod hybrid o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal ar **DYDD MERCHER, 14EG MEHEFIN, 2023** am **5.00 PM.**

Bwriedir i'r cyfarfod yma gael ei weddarlledu'n fyw, mae rhagor o fanylion am hyn [yma](#)

<b>AMSE</b>	<b>EITEM</b>	<b>TUDALEN(N AU)</b>
5 Munud	<b>EITEM 1. DATGANIADAU O FUDDIANT</b>  Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau yn unol â gofynion Cod Ymddygiad y Cyngor  <ol style="list-style-type: none"><li>1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm y mae eu buddiant yn ymwneud ag e a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a</li><li>2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, <b>rhaid</b> iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.</li></ol>	
5 Munud	<b>EITEM 2. COFNODION</b>  Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 29 Mawrth 2023 (4pm a 5pm) a 10 Mai 2023 yn rhai cywir.	5 - 42
5 Munud	<b>EITEM 3. CYHOEDDIADAU</b>	
	<b>LLYWODRAETHU AGORED:</b>	
10 Munud	<b>EITEM 4. DATGANIADAU</b>  Yn unol â Rheol 2 o Weithdrefn Llywodraethu Agored	

	Cyfarfodydd y Cyngor, derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau Portffolio o'r Cabinet:	
20 Munud	<b>EITEM 5. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU</b>  Derbyn cwestiynau'r Aelodau yn unol â Rheol 9.2 o Weithdrefn y Cyngor.  ( <b>Nodwch:</b> Caniateir hyd at 20 munud ar gyfer cwestiynau.)	43 - 50
<b>ADRODDIADAU'R SWYDDOGION</b>		
25 Munud	<b>EITEM 6. GWRTHSEFYLL LLIFOGYDD</b>  Derbyn adroddiad a chyflwyniad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Rheng Flaen.	51 - 72
10 Munud	<b>EITEM 7. RHAGLEN WAITH Y CYNGOR 2023/24</b>  Trafod adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu.	73 - 86
10 Munud	<b>EITEM 8. MECANWAITH RHOI GWYBOD AM RYBUDD O GYNNIG</b>  Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu.	87 - 92
10 Munud	<b>EITEM 9. SEFYDLU BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS AR GYFER CWM TAF MORGANNWG-TREFNIADAU TROSOLWG A CHRAFFU AR Y CYD</b>  Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu	93 - 112
10 Munud	<b>EITEM 10. ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022/2023</b>  Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu.	113 - 128
45 Munud	<b>EITEM 11. RHYBUDD O GYNNIG</b>  <b>Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S Trask a K Johnson:</b>  Mae unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol yn cael effaith fawr ar iechyd meddwl pobl o bob oed, dyma broblem sy'n dod i'r amlwg yn fwy aml ers pandemig coronafeirws. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu cronfa tair blynedd gwerth £500,000 bob blwyddyn er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r broblem yma ym mhob rhan o Gymru. Hyd yn hyn, dim ond £22,727 sydd wedi cael ei	

	<p>ddyrranu i ardal Rhondda Cynon Taf yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, mae hyn yn cyfateb i 9c fesul person yn RhCT. Mae CBSRhCT wedi dyrannu'r swm bach yma i grwpiau lleol yn rhan o'i Gronfa Rhwydweithiau Cymdogaeth. Rydyn ni'n canmol gwaith y grwpiau cymunedol bach yma ond rydyn ni o'r farn nad yw'r lefel cyllid presennol gan Lywodraeth Cymru'n ddigonol er mwyn cael effaith eang ar drigolion.</p> <p>Bydd y pecyn cyllid 3 blynedd gwreiddiol yn dod i ben yn dilyn blwyddyn ariannol 2023/2024.</p> <p>Felly, rydyn ni'n cynnig bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y Cyngor yma'n nodi bod unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol yn cael effaith niweidiol ar iechyd meddwl nifer o drigolion RhCT, a dydy cyllid Llywodraeth Cymru ddim yn ddigon i allu gwneud gwahaniaeth.</li> <li>• Y Cyngor yma'n galw ar yr Arweinydd i ysgrifennu at Eluned Morgan AS yn gofyn bod lefel y cyllid yn cynyddu eleni fel bod modd gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau'r trigolion hynny yn RhCT a fydd yn elwa o'r cyllid.</li> </ul>	
	<p><b>EITEM 12. MATERION BRYD</b></p> <p>Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Cadeirydd, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.</p>	

**Cyfarwyddwr Materion Cyfathrebu a Phennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Llywodraethol**

**At: Pob Aelod o'r Cyngor**

tudalen wag

## **PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CYNGOR**

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 29 Mawrth 2023 am  
4.00 pm

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion [yma](#)

### **Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Cyngorwyr canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:-**

Y Cyngorydd G Hughes (Cadeirydd)

Y Cyngorydd S Evans	Y Cyngorydd B Stephens
Y Cyngorydd L Addiscott	Y Cyngorydd M Ashford
Y Cyngorydd R Bevan	Y Cyngorydd S Bradwick
Y Cyngorydd J Brencher	Y Cyngorydd G Caple
Y Cyngorydd J Cook	Y Cyngorydd A Crimmings
Y Cyngorydd R Davis	Y Cyngorydd V Dunn
Y Cyngorydd E L Dunning	Y Cyngorydd J Edwards
Y Cyngorydd J Elliott	Y Cyngorydd L Ellis
Y Cyngorydd S Emanuel	Y Cyngorydd D Grehan
Y Cyngorydd B Harris	Y Cyngorydd G Holmes
Y Cyngorydd K Johnson	Y Cyngorydd G Jones
Y Cyngorydd G O Jones	Y Cyngorydd W Jones
Y Cyngorydd R Lewis	Y Cyngorydd W Lewis
Y Cyngorydd C Leyshon	Y Cyngorydd C Lises
Y Cyngorydd C Middle	Y Cyngorydd A Morgan
Y Cyngorydd N H Morgan	Y Cyngorydd S Morgans
Y Cyngorydd W Owen	Y Cyngorydd M Powell
Y Cyngorydd S Rees	Y Cyngorydd J Smith
Y Cyngorydd G Stacey	Y Cyngorydd L A Tomkinson
Y Cyngorydd S Trask	Y Cyngorydd W Treeby
Y Cyngorydd G L Warren	Y Cyngorydd K Webb
Y Cyngorydd M Webber	Y Cyngorydd R Yeo

### **Roedd y Cyngorwyr canlynol yn bresennol ar-lein:**

Y Cyngorydd J Bonetto	Y Cyngorydd S J Davies
Y Cyngorydd A J Ellis	Y Cyngorydd P Evans
Y Cyngorydd R Evans	Y Cyngorydd A Fox
Y Cyngorydd H Gronow	Y Cyngorydd G Hopkins
Y Cyngorydd W Hughes	Y Cyngorydd M Maohoub
Y Cyngorydd K Morgan	Y Cyngorydd D Owen-Jones
Y Cyngorydd M Norris	Y Cyngorydd D Parkin
Y Cyngorydd A Roberts	Y Cyngorydd A O Rogers
Y Cyngorydd J Turner	Y Cyngorydd G E Williams
Y Cyngorydd R Williams	Y Cyngorydd D Wood
	Y Cyngorydd D Evans

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr P Mee, Prif Weithredwr  
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Grŵp Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau  
Rheng Flaen  
Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol  
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraidaidd a  
Chyfathrebu  
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau  
Democraidaidd

### **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cyngorydd J Barton    Y Cyngorydd P Binning  
Y Cyngorydd A Dennis    Y Cyngorydd S Evans  
Y Cyngorydd S Hickman    Y Cyngorydd S Powderhill  
Y Cyngorydd C Preedy    Y Cyngorydd D Williams  
Y Cyngorydd T Williams

## **93      Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

Cyngorydd y fwrdeistref sirol S.A. Bradwick – “Rwy'n Gadeirydd Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac rwyf wedi agor gorsafoedd lle mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru wedi'i lleoli.”

Cyngorydd y fwrdeistref sirol C Middle – “A minnau'n filwr wrth gefn, mae'n bosibl y bydda i'n gweithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru.”

Cyngorydd y fwrdeistref sirol G Hopkins – “Rwy'n aelod o Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg.”

**(Noder:** Cafodd y buddiant canlynol ei ddatgan yn ddiweddarach yn ystod y cyfarfod:

Cyngorydd y fwrdeistref sirol K Morgan – “Rwy'n cael fy nghyflogi gan Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg.”)

## **94      Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru**

Cyflwynodd y Llywydd gynrychiolwyr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru a dywedodd wrth yr Aelodau y byddan nhw'n ymdrin ag eitemau yn ôl trefn yr agenda.

Cyflwynodd Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, Mr Jason Killens ei hun a'i gydweithiwr Ms Estelle Hitchon, Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu. Gyda chymorth sleidiau PowerPoint cyflwynodd y Prif Weithredwr drosolwg o faterion allweddol o dan y penawdau canlynol:

- Adolygiad o restr ddyletswyddau'r gwasanaethau meddygol brys

- Sesiynau gwybodaeth i uwch-randdeiliaid
- Cwm Taf Morgannwg (gan gynnwys Rhondda Cynon Taf)
  - Crynodeb gweithredol
  - Data o ran galw a rhagolygon
  - Gwaith ymgysylltu helaeth â staff
  - Effaith ar staff
  - Diogelwch cleifion
  - Deilliannau clinigol
  - Manteision clinigol Uned Ymateb Aciwtedd Uchel Cymru (CHARU)
  - Cyflawniad ansawdd a data
  - Gwasanaethau meddygol brys
  - Digwyddiadau'n ymwneud â diogelwch cleifion
  - Cefndir
  - Gwasanaethau meddygol brys – Adolygiad o alw a chapasiti
  - Canfyddiadau'r adolygiad
  - Newid y rhestr ddyletswyddau
  - CTM
  - Edrych i'r dyfodol

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor ddiolch i gynrychiolwyr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru am eu cyflwyniad ac am fynychu cyfarfod y Cyngor ar-lein. Rhoddodd ddiolch hefyd i'r gwasanaethau a'u staff am eu hymroddiad yn ystod y pandemig.

Holodd yr Arweinydd am neilltuo, gan gyfeirio at gyfnod pan oedd gyda'r sir yr amseroedd ymateb gwaethaf o ran ambiwlansys yng Nghymru gyfan. Roedd yr ystadegau'n profi na fyddai ambiwlansys a oedd yn cael eu galw i ardaloedd eraill y tu allan i'r fwrdeistref sirol i fynychu digwyddiad yn dychwelyd i'r sir. Roedd hyn yn golygu bod ymateb y sir yn wael. Gofynnodd yr Arweinydd pryd ddaeth y neilltuo i ben?

Soniodd yr Arweinydd hefyd am ei sgysiau diweddar â staff ambiwlans yn ystod ei ymweliad â'r llinellau piced. Roedden nhw wedi codi pryderon ynghylch newid o'r cerbydau ymateb brys i'r cerbydau CHARU a'r mathau o alwadau roedden nhw'n ymdrin â nhw. Roedd lles staff hefyd wedi'i drafod mewn perthynas â newidiadau i'r rotâu ac achosion pan nad yw staff ambiwlans yn gallu gadael eu sifftiau ar amser. Yn aml maen nhw'n gorfod aros oriau lawer i gael eu rhyddhau o'u dyletswyddau. Er gwaethaf ymrwymiad y staff i ddiogelwch cleifion, roedd hyn yn bryder i lawer.

Gofynnodd yr Arweinydd am eglurhad ynghylch yr anallu i gyrraedd y targed ar gyfer galwadau categori coch. Gofynnodd i'r Prif Weithredwr a oedd y fwrdeistref sirol yn debygol o gael gwasanaeth ambiwlans diogel a dibynadwy.

Ymatebodd Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru i'r materion a godwyd. Gwnaeth sylwadau ar y rhwystredigaeth o golli traean o'r cerbydau i oedi yn yr adran achosion brys pan nad oes modd i gleifion, sy'n iach yn feddygol i'w rhyddhau, adael yr ysbyty oherwydd y diffyg gofal cymdeithasol neu resymau eraill sydd o fewn rheolaeth y Bwrdd Iechyd. Roedd hefyd wedi cydnabod y canlyniadau o ran atal staff rhag gorffen sifftiau a chymryd seibiannau ar amser.

Dywedodd Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans

Cymru fod buddsoddiad wedi bod, a bod y criwiau ambiwlans wedi cynyddu 400 dros y tair i bedair blynedd diwethaf. Serch hynny, mae 253 o'r rheiny wedi lleihau'r diffyg strwythurol, ac mae 100 o staff wedi'u hariannu'n achlysurol gan y llywodraeth yn ystod y flwyddyn galendr ddiwethaf. Ychwanegodd fod gweithgarwch yn y categori coch wedi dyblu, ac mai colli'r cerbydau yw'r brif reswm am yr anallu i ymateb i alwadau yn y gymuned a pham nad oes modd i staff orffen eu sifftiau ar amser a chymryd egwyl. Ychwanegodd hefyd fod y dulliau o gyflawni newid y tu hwnt i'w reolaeth.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod cael gwasanaeth ambiwlans cenedlaethol sy'n cyrraedd y targedau'n rheolaidd ar gyfer galwadau categori coch ac sydd ag amseroedd ymateb rhesymol ar gyfer categorïau eraill ymhell yn y dyfodol. Ychwanegodd fod yna gynlluniau uchelgeisiol i newid y model darparu gwasanaeth ond mae hefyd angen newid sylweddol yn y ffordd y mae'r gwasanaeth yn ymateb i weithgarwch, i ddarparu mwy o gyngor i uwch glinigwyr ac i allu anfon clinigwr arbenigol i gleifion yn y gymuned, a hynny'n gyflym ac ar bob achlysur. Wrth ymateb i achosion o neilltuo, dywedodd y Prif Weithredwr fod yna heriau sy'n atal ambiwlans rhag gyrru heibio i glaf y mae angen ymateb iddyn nhw. Rhoddodd sicrwydd i'r Aelodau nad yw neilltuo yn digwydd nawr.

Dywedodd Arweinydd yr Wrthblaid, y Cynghorydd K Morgan fod y cynnydd yn nifer y galwadau categori coch yn peri pryder. Gofynnodd a oes modd darparu amserlen bendant o ran pryd y bydd gwasanaeth CHARU yn cael popeth y mae ei angen o ran adnoddau. Cododd Arweinydd yr Wrthblaid gwestiwn ynghylch rôl yr awdurdod lleol. Gofynnodd a oes modd i'r awdurdod helpu o ran y pwysau ar ysbytai sy'n effeithio ar Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru. Gofynnodd hefyd a oes modd i'r Ymddiriedolaeth ymwneud mwy â'r cynllun rhyddhau cleifion ar lefel yr awdurdod lleol.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod hanner gwasanaeth CHARU yn weithredol. Mae angen cyllid ar yr hanner arall, ac mae tua 100 o swyddi sydd heb gael eu hariannu hyd yma. Ychwanegodd fod rhwng 30 a 40 yn fwy o ambiwlansys ar ddyletswydd bob dydd ar adegau prysur o ganlyniad i'r newidiadau i'r rhestr ddyletswyddau. Mae hyn yn cyfateb i 170 o ambiwlansys ar gael, sy'n cynyddu'r capasiti. Dywedodd y bydd cynnydd yn y gweithgarwch categori coch dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae hyn yn rhannol oherwydd y gyfradd uwch o gleifion hŷn. Bydd angen mwy o ymyrraeth arnyn nhw gan y gwasanaethau gofal brys. Yn wyneb hyn, ychwanegodd fod angen newidiadau i'r model darparu gwasanaeth, gyda'r achosion llai difrifol ac aciwt yn cael eu trin yn y gymuned er mwyn rhyddhau'r pwysau ar yr adrannau brys. Dywedodd hefyd fod enghreifftiau o waith da yn bodoli mewn lleoliadau aciwt megis yng Nghaerdydd. Yno maen nhw wedi canolbwyntio ar leihau'r oedi wrth drosglwyddo i adrannau achosion brys wedi sicrhau gwelliant sylweddol. Byddai modd ailadrodd hyn mewn safleoedd eraill.

Wrth ymateb i'r ymholiad cynharach mewn perthynas â gweithio'n well gyda'r awdurdodau lleol, dywedodd Ms Estelle Hitchon, Cyfarwyddwr Partneriaeth ac Ymgysylltu nad yw Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yn aelod o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghwm Taf Morgannwg ar hyn o bryd. Nid yw chwaith yn dod o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, sef y prif gyfrwng ar gyfer llywio'r dull partneriaeth integredig. Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu diwygio hyn wrth gynnal ymgynghoriad. Bydd hyn yn ystyried sefydliadau ychwanegol, ac mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru yn un ohonyn nhw. Roedd o'r farn y byddai hyn yn cynnig cyfle ychwanegol i gydweithio ag awdurdodau lleol, a phartneriaid eraill yng Nghwm Taf Morgannwg i chwalu rhai



o'r ffiniau presennol rhwng sefydliadau.

Rhoddodd Arweinydd Grŵp Annibynnol Rhondda Cynon Taf, y Cynghorydd M Powell sylw am well ymgysylltu pe bai'r Aelodau wedi gallu gweld y cyflwyniad PowerPoint cyn y cyfarfod. Holodd ynghylch niferoedd goroesi a rhyddhau cleifion ar gyfer y fwrdeistref sirol. Gofynnodd hefyd a oedd y model y cyfeiriwyd ato yng Nghaerdydd wedi'i rannu â Byrddau Iechyd eraill megis Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg?

Gofynnodd Arweinydd y Grŵp Ceidwadol, y Cynghorydd S Trask, a fydd parafeddygon CHARU yn creu bwllch strwythurol pellach o fewn y gwasanaeth. Hefyd, gofynnodd am ba gynlluniau sydd ar waith ar gyfer cadw staff, a hynny yn wyneb staff rheng flaen yn gadael y gwasanaeth yn gyfan gwbl.

Ymatebodd y Prif Weithredwr fod rhywfaint o gynnydd wedi bod yn nifer y staff sy'n gadael y gwasanaeth rheng flaen. Mae hyn yn bennaf i ymuno â meysydd eraill o fewn y gwasanaeth iechyd neu'r sector preifat, a hynny oherwydd y cynnydd o ran cyflog, neu oherwydd eu profiad yn y gweithle ar hyn o bryd. O ran arfer gorau, cadarnhaodd ei fod wedi'i nodi a'i rannu'n uniongyrchol, ond ei fod yn fater i'r Bwrdd Iechyd ei fabwysiadu. Gan orffen, dywedodd fod modelau cyfredol yn cael eu hystyried i ganfod a yw'n well, yn absenoldeb cyllid pellach, lleihau nifer yr ambiwlansys brys ar gyfer cerbydau CHARU ychwanegol, neu a ddylid cynnal y lefelau presennol. Ychwanegodd y gallai'r olaf o bosibl greu diffyg mewn mannau eraill.

Croesawodd yr Arweinydd y cyfle i ymwneud ymhellach ag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru i drafod gweithio ar y cyd a chefnogaeth awdurdodau lleol. Ychwanegodd mai ffigurau Rhondda Cynon Taf ar gyfer oedi wrth ryddhau cleifion yw'r gorau yng Nghymru, er bod yr Arweinydd wedi nodi rhai meysydd o bryder megis neilltuo ambiwlansys a'r cynnydd yn nifer y galwadau categori coch a oedd yn cyfiawnhau trafodaethau pellach.

Rhoddodd yr Aelod llywyddol ddiolch i gynrychiolwyr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, gan ddweud bod modd anfon unrhyw gwestiynau pellach at Uned Busnes y Cyngor.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.00 pm**

**Y Cynghorydd G Hughes  
Cadeirydd.**

tudalen wag



**RHONDDA CYNON TAF**

**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF  
CYNGOR**

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 29 Mawrth 2023 am 5.10 pm

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion [yma](#)

**Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Cyngorwyr canlynol yn bresennol yn Siambr  
y Cyngor:-**

Y Cyngorydd G Hughes (Cadeirydd)

Y Cyngorydd S Evans	Y Cyngorydd B Stephens
Y Cyngorydd L Addiscott	Y Cyngorydd M Ashford
Y Cyngorydd R Bevan	Y Cyngorydd S Bradwick
Y Cyngorydd J Brencher	Y Cyngorydd G Caple
Y Cyngorydd J Cook	Y Cyngorydd A Crimmings
Y Cyngorydd S J Davies	Y Cyngorydd R Davis
Y Cyngorydd V Dunn	Y Cyngorydd E L Dunning
Y Cyngorydd J Edwards	Y Cyngorydd J Elliott
Y Cyngorydd L Ellis	Y Cyngorydd S Emanuel
Y Cyngorydd D Evans	Y Cyngorydd D Grehan
Y Cyngorydd B Harris	Y Cyngorydd G Holmes
Y Cyngorydd K Johnson	Y Cyngorydd G Jones
Y Cyngorydd G O Jones	Y Cyngorydd W Jones
Y Cyngorydd R Lewis	Y Cyngorydd W Lewis
Y Cyngorydd C Leyshon	Y Cyngorydd C Lisle
Y Cyngorydd C Middle	Y Cyngorydd A Morgan
Y Cyngorydd N H Morgan	Y Cyngorydd S Morgans
Y Cyngorydd W Owen	Y Cyngorydd M Powell
Y Cyngorydd S Rees	Y Cyngorydd J Smith
Y Cyngorydd G Stacey	Y Cyngorydd L A Tomkinson
Y Cyngorydd S Trask	Y Cyngorydd W Treeby
Y Cyngorydd G L Warren	Y Cyngorydd K Webb
Y Cyngorydd M Webber	Y Cyngorydd R Yeo

**Roedd y Cyngorwyr canlynol yn bresennol ar-lein:**

Y Cyngorydd P Binning	Y Cyngorydd J Bonetto
Y Cyngorydd A Dennis	Y Cyngorydd A J Ellis
Y Cyngorydd P Evans	Y Cyngorydd R Evans
Y Cyngorydd S Evans	Y Cyngorydd A Fox
Y Cyngorydd H Gronow	Y Cyngorydd G Hopkins
Y Cyngorydd M Maohoub	Y Cyngorydd K Morgan
Y Cyngorydd D Owen-Jones	Y Cyngorydd M Norris
Y Cyngorydd D Parkin	Y Cyngorydd C Preedy
Y Cyngorydd A Roberts	Y Cyngorydd A O Rogers
Y Cyngorydd J Turner	Y Cyngorydd G E Williams
Y Cyngorydd R Williams	Y Cyngorydd T Williams
Y Cyngorydd D Wood	

## Dyma'r Swyddogion oedd yn bresennol

Mr P Mee, Prif Weithredwr  
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Cyfadran – Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen  
Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol  
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraidaidd a Chyfathrebu  
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Democraidaidd

## Ymddiheuriadu am absenoldeb

Y Cynghorydd J Barton    Y Cynghorydd S Hickman  
Y Cynghorydd W Hughes    Y Cynghorydd S Powderhill  
Y Cynghorydd D Williams

### 96      Croeso

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol J Barton, S Hickman, W Hughes, S Powderhill a D Williams.

### 97      Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

Mr A Wilkins – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol ar ran pob Swyddog y Cyngor oedd yn bresennol mewn perthynas ag Eitem 9 ar yr Agenda – Datganiad 2023/24 y Cyngor ar Bolisi Cyflogau “Nid yw datganiad y Cyngor ar Bolisi Cyflogau yn cael unrhyw effaith ar delerau ac amodau presennol sy'n berthnasol i weithwyr unigol. Yn syml mae'n nodi dull y Cyngor tuag at bolisiau a fabwysiadwyd yn flaenorol, felly bydd Swyddogion yn aros yn y cyfarfod tra bydd yr eitem yn cael ei chyflwyno gan y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol ac yn ystod y drafodaeth ddilynol.”

**(Nodwch:** Cafodd y datganiadau canlynol eu gwneud yn ddiweddarach yn y cyfarfod (cofnodion 103, 104 a 106)

Y Cynghorydd K Johnson mewn perthynas ag eitem 7 ar yr agenda – Strategaeth Rheoli'r Trysorlys – “Rydw i'n gweithio i Drafnidiaeth Cymru”

Y Cynghorydd J Brencher mewn perthynas ag eitem 8 ar yr agenda – Adroddiad Strategaeth Gyfalaf 2023/24 – “Mae fy mab yn Gyfarwyddwr Trafnidiaeth Cymru”

Y Cynghorydd K Morgan mewn perthynas ag eitem 10 ar yr agenda – Cynllun Llesiant Cwm Taf 2023-2028 - “Rydw i'n gweithio i Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg”

### 99      Cyhoeddiadau

Cafodd y cyhoeddiadau canlynol eu gwneud:

Rhoddodd Arweinydd y Cyngor, Y Cynghorydd A Morgan OBE, siec gwerth £2,107.17 i'r Lleng Brydeinig Frenhinol. Dyma'r arian a gafodd ei godi yn y Gyngerdd Goffa. Roedd Mr Richards, Cadeirydd Lleng Brydeinig Frenhinol Pontypridd, yn bresennol i dderbyn y siec a diolch i'r Cyngor am ei gefnogaeth.

Aeth y Cynghorydd A Roberts MBE ati i longyfarch dwy chwaer o ward Gilfach-goch, Esme Walters a enillodd gwpan y byd mewn cystadleuaeth ddaawnsio i bobl yn eu harddegau, a Verity Walters a enillodd gwpan y byd mewn cystadleuaeth dawnsio mewn pâr. Cyhoeddodd y Cynghorydd Roberts fod Tyler Williams wedi ennill dwy Bencampwriaeth y Byd mewn cicfocsio.

Talodd Arweinydd yr Wrthblaid, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K Morgan, deyrnged i'r diweddar gyn-Gynghorydd Rita Moses. Roedd yn Gynghorydd Cyngor Dosbarth Cwm Cynon rhwng 1987 a 1991 ac yn Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol ar gyfer Cyngor RhCT rhwng 1995 a 2004 ac eto rhwng 2008-2012. Roedd hi wrth wraidd nifer o grwpiau cymunedol ac yn llywodraethwr ar gyfer yr ysgolion lleol. Yn 2000 roedd hi'n Gadeirydd / Maer Cyngor RhCT gyda'i gŵr wrth ei hochr ac roedd hi'n falch iawn o gael ei phenodi. Siaradodd y Cynghorydd Morgan am ei brwdfrydedd am ei chymuned ac anfonodd ei chydymdeimlad at deulu a ffrindiau Rita yn ystod y cyfnod anodd yma.

## 100 Cwestiynau gan yr Aelodau

Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu y byddai cwestiynau 8 a 9 yn cael eu hepgor o ganlyniad i absenoldeb yr Aelodau sy'n gofyn y cwestiynau:

### 1) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol T Williams i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE:

*“Fydd Arweinydd y Cyngor yn rhoi diweddariad ar gynlluniau atal llifogydd yng Nghwmaman?”*

#### **Ymateb y Cynghorydd A Morgan OBE:**

Ymatebodd yr Arweinydd drwy gadarnhau bod Cam 2 y gwaith Lliniaru Llifogydd (Gosod waliau llifogydd i'r cwrs dŵr i fyny'r afon o'r bont ar y briffordd) yng Nghwmaman wedi mynd rhagddo'n dda yn 2022/23 trwy'r cam dylunio a datblygu manwl sydd bellach wedi'i gwblhau. Ychwanegodd fod y Cyngor wedi cyflwyno cais am gymeradwyaeth mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru (Rhagfyr 2022) ar gyfer y cam adeiladu, gyda chyllideb gwerth £415k ar eu llif prosiectau mawr ar gyfer 2023/24.

Rhoddodd yr Arweinydd wybod os bydd yn cael ei gymeradwyo mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru, sydd i'w ddisgwyl ym mis Ebrill, bydd gweithredu'r grant yma'n amodol ar gais grant manwl pellach yn seiliedig ar ddiweddariad o achos busnes cyfredol y prosiect unwaith y bydd y costau gwirioneddol yn cael eu nodi yn sgil proses dendro. Rhagwelir y bydd gwaith yn dechrau ar y safle yn yr haf, 2023/24, yn amodol ar lwyddiant y cais grant manwl ar gyfer y cam adeiladu.

### **Cwestiwn ategol gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol T Williams:**

“Beth mae'r Cyngor yn ei wneud i godi ymwybyddiaeth o'r mesurau perygl llifogydd?”

### **Ymateb y Cyngorydd A Morgan OBE:**

Nododd yr Arweinydd fod adroddiad i'r Cabinet wedi amlinellu a chytuno ar gyllid ar gyfer aelod ychwanegol o staff yn y garfan rheoli perygl llifogydd, fydd yn gyfrifol am ymgysylltu â thrigolion a chodi ymwybyddiaeth ledled cymunedau RhCT. Ychwanegodd fod gan ardal RhCT y gyfran uchaf o ran perygl llifogydd dŵr wyneb, sef 25% o gyfanswm perygl Cymru, felly'r bwriad yw ymgysylltu â'r holl ardaloedd sydd wedi'u nodi i dderbyn cynlluniau perygl llifogydd, a chodi ymwybyddiaeth ymhlith eu trigolion a busnesau lleol.

### **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol G Hopkins i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol B Harris:**

“Allai'r Aelod o'r Cabinet roi diweddariad ar gynllun Grantiau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer y trydydd sector?”

### **Ymateb y Cyngorydd B Harris:**

Rhoddodd y Cyngorydd B Harris wybod bod y cyfnod cyflwyno cais wedi agor (1 Chwefror 2023) a'i fod wedi dod i ben yn gynnar ar 24 Chwefror 2023, yn lle 28 Chwefror yn ôl y bwriad, gan fod y cynllun yn llawn. Rhoddodd y Cyngorydd Harris y diweddariadau canlynol mewn perthynas â'r cynllun grant:

Grant Cymunedol Cyngor RhCT Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU – Data Terfynol Rownd 1:

- 133 o geisiadau wedi'u hasesu
- 91 o geisiadau wedi'u cymeradwyo gyda'r swm cyfan, sef **£675,000**, wedi'i ddyrannu
- 42 o geisiadau wedi'u gwrthod

Nododd y Cyngorydd Harris fod y 91 o anfonebau a ddaeth i law wedi cael eu prosesu ar gyfer eu talu, ac mae gwaith monitro ac adrodd ar gyfer y 91 o geisiadau llwyddiannus yn dechrau ar 31 Mawrth 2023.

O ran Grant Cymunedol Cyngor RhCT – Rownd 2, nododd y Cyngorydd Harris fod achlysuron gwybodaeth eisoes wedi cael eu cynnal ar 17 a 20 Mawrth 2023 mewn perthynas â dyfarniadau Lefelau Canolig ac Uwch. Cymerodd tua 250 o bobl ran yn yr achlysuron ar-lein. Mae cymhwysedd yn aros yr un peth â'r rownd gyntaf, gyda deilliannau ac allbynnau ychwanegol ar gyfer 2023-25.

Dywedodd y Cyngorydd Harris y bydd y cyfnod cyflwyno cais yn dechrau ar 1 Ebrill 2023 ac yn dod i ben am 5pm ar 12 Mai 2023. Bydd manylion i'w gweld ar-lein ar dudalennau gwe grant Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU penodol y

Cyngor. Y dyraniad Cyfalaf ar gyfer 2023-24 yw £162,500 a'r dyraniad Refeniw ar gyfer 2023-24 yw £1,125,000. Ychwanegodd mai dyma lefelau'r ceisiadau:

- Lefel is - Ceisiadau rhwng £1,000 ac £14,999
- Lefel ganolig - Ceisiadau am rhwng £15,000 a £49,999
- Lefel uchel - Ceisiadau am rhwng £50,000 a £200,000

Bydd y rhain yn cael eu hystyried ar sail gystadleuol yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 22 Mai 2023, ac mae cyfnod cyflwyno cais arall wedi'i gynllunio ar gyfer misoedd cyntaf 2024-2025.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**3) Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol C Middle i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings:**

*“A oes modd i'r Aelod o'r Cabinet ddarparu diweddariad ar raglen y Cyngor i wella cyfleusterau chwarae awyr agored i blant?”*

**Ymateb y Cyngorydd A Crimmings:**

Rhoddodd y Cyngorydd Crimmings wybod bod yna 13 o brosiectau manau chwarae yn rhan o raglen 2022-23. Mae 12 o'r rhain wedi cael eu cwblhau a bydd yr un olaf yn dechrau'n fuan iawn. Roedd gan y Cyngor gyllid ychwanegol ar gyfer datblygu dwy Ardal Gemau Aml-ddefnydd (MUGA) – un yn ward y Cyngorydd Middle, sef Pen-y-graig, ac un ar Heol Maritime yn ardal Graig. Ychwanegodd fod y ddau brosiect MUGA wedi dechrau, a bydd cyfleuster Pen-y-graig yn cael ei gwblhau'n fuan iawn. Bydd lloriau lliwgar gyda llinellau'n cael eu gosod yn y ddwy ardal yn y gwanwyn, ar ôl gosod y tarmac newydd.

I gloi, nododd y Cyngorydd Crimmings y cytunwyd ar y rhaglen ar gyfer 2023-24 a bydd dwy Ardal Gemau Aml-ddefnydd arall yn cael eu datblygu, yn ogystal ag adnewyddu 10 man chwarae.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**4) Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol D Grehan i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant a Datblygu, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol, M Norris:**

*“Yn dilyn y ‘problemau’ gyda'r system gosod cartrefi yn Nhonyrefail yn ddiweddar, a'r dioddefaint sydd wedi dod yn sgil y system, ac o ystyried anniddigrwydd o bob plaid gyda'r drefn, a fyddai'r Cyngor yn teimlo ei bod yn briodol i drefnu sesiwn ar gyfer yr holl aelodau i drafod y system a'r polisiâu sy'n arwain y penderfyniadau gosod eiddo?”*

**Ymateb gan y Cyngorydd M Norris:**

Atebodd y Cyngorydd Norris y cwestiwn trwy ddweud y cafodd adroddiad ar y Polisi Dyraniadau ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu – Gwasanaethau Cymuned ym

mis Ionawr lle cafodd Aelodau drafodaeth drylwyr iawn a chyflwynodd Aelodau o bob grŵp gwleidyddol her. Ychwanegodd fod yr adroddiad hefyd yn nodi meysydd i'w hystyried yn rhan o'r adolygiad nesaf o'r Polisi Dyraniadau. Cytunwyd gan Aelodau y byddai cyfle craffu arall ar gael ar ôl llunio copi drafft o'r polisi dyraniadau diwygiedig.

Ychwanegodd y Cynghorydd Norris fod Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd wedi rhoi gwybod i'r Pwyllgor Craffu – Gwasanaethau Cymuned yn ddiweddar y bydd hyfforddiant o'r fath yn cael ei ddarparu, gan gynnwys canolbwytio'n benodol ar y Cynllun Dyrannu Tai. Bydd yr hyfforddiant yma ar gael i bob Aelod, ac ychwanegodd y Cynghorydd Norris y byddai'n annog pob Aelod o Grŵp Llafur i fynd.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**5) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Brencher i Arweinydd y Cyngor - Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE:**

*“A allai'r Arweinydd wneud datganiad ar Faes Parcio Tŷ Pennant/Stryd y Santes Catrin sydd bellach yn cael ei reoli gan y Cyngor?”*

**Ymateb y Cynghorydd A Morgan OBE:**

Nododd y Cynghorydd Morgan y dechreuodd y Cyngor reoli maes parcio Stryd y Santes Catrin yn swyddogol ar ôl iddo ailagor ddydd Llun 20 Mawrth. Yn 2022, penderfynodd NCP ddod â'i gontract o ran rhedeg y maes parcio i ben ar fyr rybudd. Nododd fod y Cyngor wedi gweithio gyda Trivallis ers hynny i ailagor y maes parcio i ymwelwyr â'r dref. Roedd angen glanhau'r cyfleuster yn drylwyr, yn ogystal â chwblhau gwaith cynnal a chadw arall. Cafodd y maes parcio ei ailagor ar 20 Mawrth ac ychwanegodd yr Arweinydd y bydd ffioedd parcio'n sylweddol is na ffioedd blaenorol NCP, sef £1 am hyd at bedair awr, a £2 am arhosiad hirach, yn unol â ffioedd safonol y Cyngor ar gyfer cyfleusterau arhosiad hir.

Esboniodd yr Arweinydd fod peiriannau tocynnau newydd wedi cael eu gosod yn y maes parcio, yn ogystal ag arwyddion newydd sy'n dangos y ffioedd newydd. Mae modd defnyddio tocynnau tymor meysydd parcio'r Cyngor yn y cyfleuster yma, sy'n boblogaidd gyda gweithwyr canol y dref.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**6) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Morgans i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings:**

*“Allai'r Aelod o'r Cabinet amlinellu'r buddsoddiad arfaethedig ar gyfer gwella Parc y Darren?”*

**Ymateb y Cynghorydd A Crimmings:**

Rhoddodd y Cynghorydd Crimmings wybod bod Parc y Darren wedi derbyn cyfleusterau newid newydd sbon yn ddiweddar ar gyfer y tимоedd chwaraeon



sy'n defnyddio'r cae, a hynny drwy fuddsoddiad gwerth £225,000. Esboniodd, yn ogystal â darparu ystafelloedd newid, fod gwaith wedi dechrau i ddod o hyd i gcontractwr i osod cae 3G newydd sbon gyda haen (shock pad) oddi tano, i gymryd lle'r cae artiffisial â thywod presennol. Bydd y cynllun yma'n cael ei gwblhau drwy fuddsoddiad pellach gwerth £375,000. Bydd y cae yn cael ei ariannu'n rhannol gan grant Cymdeithas Pêl-droed Cymru i gyfrannu at y buddsoddiad sylweddol gan Gyngor RhCT.

Ychwanegodd y Cyngorydd Crimmings y rhagwelir y bydd y gwaith yn dechrau ym mis Mai 2023 a chael ei gwblhau ym mis Awst 2023. Bydd yr adran Hamdden, Chwaraeon a Pharciau'n cysylltu â thimoedd lleol a'r gymuned mewn perthynas â'r datblygiad unwaith y bydd contractwr yn cael ei benodi a bydd cynllun adeiladu yn cael ei lunio.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**7) Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol L A Tomkinson i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol R Lewis:**

*"Fydd yr Aelod o'r Cabinet yn darparu diweddariad ar gyflwyno prydau ysgol am ddim yn Rhondda Cynon Taf?"*

**Ymateb y Cyngorydd R Lewis:**

Cadarnhaodd y Cyngorydd Lewis fod gwasanaethau prydau ysgol wedi parhau i fod ar gael er gwaethaf problemau o ran recriwtio staff ac anawsterau gyda'r gadwyn cyflenwi bwyd. Ychwanegodd y darparwyd dros 1.6 miliwn o brydau ysgol i ddisgyblion ysgolion cynradd ac 1.2 miliwn o brydau ysgol i ddisgyblion ysgolion uwchradd yn RhCT yn 2022/23. Cafodd gwaith gwella ei gynnal yng ngheginau 3 ysgol uwchradd a 2 ysgol arbennig yn rhan o'r raglen gyfalaf arfaethedig yn ystod 2022/23.

Rhoddodd y Cyngorydd Lewis wybod y cafodd Prydau Ysgol am ddim eu cynnig i ddisgyblion cymwys yn y dosbarth meithrin ac i holl ddisgyblion y dosbarth derbyn a blwyddyn 1 yn 2022/23, gyda 2,571 o brydau'n cael eu gweini bob dydd ar gyfartaledd. Yn 2022/23, cafodd dros 200,000 o brydau ysgol am ddim eu gweini ledled y Fwrdeistref Sirol.

Nododd y Cyngorydd Lewis fod gwaith cyfalaf wedi'i gwblhau yng ngheginau 38 o ysgolion cynradd yn 2022/23, a hynny er mwyn hwyluso'r broses o gynnig prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd. Mae gwaith i'w gynnal yn 63 o ysgolion cynradd eraill yn 2023/24. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllid gwerth £9 miliwn i gynnig prydau ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys hyd at ddiwedd gwyliau hanner tymor mis Mai. Roedd y Cyngorydd Lewis yn sicr y byddai hyn yn cael ei groesawu gan nifer o deuluoedd gan fod y costau byw'n parhau i gael effaith ar drigolion.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**(Nodwch:** Fel y nodwyd, byddai cwestiynau 8 a 9 yn cael eu hepgor o

ganlyniad i absenoldeb yr Aelodau sy'n gofyn y cwestiynau.)

**10) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Davis i Arweinydd y Cyngor – Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan:**

*“A oes modd i'r Arweinydd amlinellu faint o fusnesau yn RhCT fydd yn elwa ar Gynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes, gan gynnwys trwy Gynllun Lleihau Ardrethi Busnes Lleol y Cyngor sy'n rhoi gostyngiad gwerth £500?”*

**Ymateb y Cynghorydd A Morgan OBE:**

Nododd y Cynghorydd Morgan, yn seiliedig ar nifer y ceisiadau llwyddiannus a ddaeth i law yn 2022/23, y bydd 650 o fusnesau yn gymwys ar gyfer y rhyddhad i fusnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch (sef 75%), yn ogystal â'r cymorth rhyddhad ardrethi lleol (hyd at £500 fesul safle busnes). Aeth ati i gydnabod bod rhai busnesau heb gyflwyno cais am y naill gynllun rhyddhad na'r llall yn 2022/23, felly mae'r Cyngor yn annog pob perchennog busnes i wirio a ydyn nhw'n gymwys trwy fynd i wefan y Cyngor a darllen yr wybodaeth gyda'u bil ardrethi.

Ychwanegodd y Cynghorydd Morgan drwy nodi y bydd 4,700 o fusnesau'n derbyn rhyddhad ardrethi trwy Gynllun Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**11) Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Rees i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Datblygu a Ffyniant, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol, M A Norris:**

*“Sut mae'r Cyngor yma'n cefnogi busnesau ledled Cwm Cynon a Rhondda Cynon Taf?”*

**Ymateb gan y Cynghorydd M Norris:**

Dywedodd y Cynghorydd Norris fod yr Arweinydd eisoes wedi amlinellu rhai o'r cymorth ariannol sydd ar gael i fusnesau wrth ateb y cwestiwn blaenorol felly fyddai ddim yn ailadrodd yr wybodaeth honno.

Amlinellodd y Cynghorydd Norris nifer o gynlluniau a datblygiadau eraill sydd wedi'u cwblhau'n ddiweddar neu sydd wrthi'n mynd rhagddyn nhw yng Nghwm Cynon:

- Mae 20 o unedau busnes bach modern wedi cael eu cwblhau yn Nhresalem. Mae 10 tenant eisoes yn eu defnyddio, ac mae tenantiaid eraill yn dod i rai o'r unedau sydd ar ôl yn fuan. Mae diddordeb o ran yr unedau yma wedi bod yn fawr.
- Cafodd gwaith ailddatblygu Sgwâr Guto yn Aberpennar ei gwblhau y llynedd, gan ddod â'r Fframwaith Adfywio i ben ar gyfer ardal Aberpennar. Cafodd ardal canol y dref ei gwella yn sgil y cynllun yma,

megis lleoedd parcio ychwanegol a gwaith gwella ardaloedd i'r cyhoedd.

- Mae gwaith datblygu strategaeth ddrafft ar gyfer Canol Tref Aberdâr gyda'r cyfnod ymgynghori anffurfiol wedi cael ei gwblhau a bydd adborth hwn yn llywio'r Strategaeth Ddrafft.
- Parhau i ddefnyddio arian Grant Creu Lleoedd Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru i greu safleoedd newydd a gwella rhai presennol ar y stryd fawr yng nghanol trefi allweddol.

Ychwanegodd y Cyngorydd Norris fod gwaith ailddatblygu tafarn The Black Lion yn Aberdâr yn enghraifft dda o lwyddiant hyn a bod y cyllid yma ar gael ar gyfer cynlluniau yng nghanol trefi ledled y Fwrdeistref.

Nododd y Cyngorydd Norris fod llawer o waith ailddatblygu yn mynd rhagddo ledled y Fwrdeistref Sirol, a bod y Cyngor hefyd yn parhau i weinyddu cyllid Cymorth i Fentrau trwy ei Gronfa Buddsoddi mewn Mentrau a Grant Cynnal Canol Trefi ei hun i helpu i ysgogi buddsoddiad preifat a datblygu'r economi leol.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

#### **101 Rhaglen Waith y Cyngor 2022/2023**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu wybod y bydd Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor, a gafodd ei drefnu ar gyfer 24 Mai 2023, bellach yn cael ei gynnal ar 10 Mai 2023 am 4pm. Ychwanegodd fod modd i fusnes y Cyngor ddechrau mor gyflym â phosibl o ganlyniad i gynnal y cyfarfod yma'n gynharach. Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y bydd manylion y cyfarfod cyffredinol blynyddol yn cael eu rhannu gydag Arweinwyr y Grwpiau yn dilyn trafodaeth gyda'r Llywydd.

#### **102 TRAFODAETH AR SEFYLLFA'R FWRDEISTREF SIROL**

Yn unol â Rheol Gweithdrefn 13.2 y Cyngor, nododd y Llywydd ei fod wedi neilltuo 45 munud ar gyfer yr eitem yma, ac yr hoffai wahodd yr Arweinydd i gyfarch y Cyngor ac ymateb i sylwadau Aelodau ar ei Adroddiad Blynyddol.

Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod ei grynoded blynyddol yn cael ei roi i'r Cyngor llawn bob blwyddyn a'i fod yn amlinellu'r hyn y mae'r Cyngor wedi'i gyflawni dros y flwyddyn diwethaf ac yn nodi'r hyn y mae eisiau ei gyflawni yn y dyfodol.

Siaradodd Arweinydd y Cyngor am drafodaeth y llynedd a oedd yn seiliedig ar gyd-destun adfer yn dilyn y pandemig. Mae'r Cyngor bellach yn wynebu cyni eto gyda'r argyfwng costau byw a'i heriau ar gyfer trigolion a chymunedau, a'r sector cyhoeddus. Cyfeiriodd at y pwysau ar y gyllideb, yn benodol ar ofal cymdeithasol, costau ynni, chwyddiant a phwysau cyflogau.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at flaenoriaeth barhaus y Cyngor, sef y newid yn yr hinsawdd, wrth iddo barhau i gymryd camau gweithredu i gyflawni'r nod o fod yn Gyngor Niwtral o ran Carbon erbyn 2030. Nododd fod y Cyngor yn gwneud cynnydd da a'i fod yn parhau i brynu 100% o'i gyflenwad ynni trydanol trwy ffynonellau adnewyddadwy yn y DU. Ychwanegodd, er gwaethaf heriau, fod y

Cyngor yn dal i weld lefelau sylweddol o fuddsoddiad wrth iddo gyflawni ymrwymadau'r maniffesto.

Rhoddodd yr Arweinydd ddiolch i holl staff y Cyngor sy'n parhau i gyflawni gwasanaethau bob dydd.

### **COSTAU BYW**

Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod y Cyngor yn parhau i roi cymorth i drigolion mewn angen yn y saith Canolfan Cydnerthedd y Gymuned, a gafodd eu sefydlu ar ddechrau'r pandemig gyda chymorth partneriaid. Mae dros 500 o drigolion wedi cael cymorth rhwng 31 Ionawr 2022 a 1 Chwefror 2023. Hefyd, mae cynnydd sylweddol o 62% wedi bod yn nifer yr atgyfeiriadau mewn perthynas â chymorth siopa a bwyd brys a rhoi gwybodaeth am arian a budd-daliadau. Ychwanegodd fod y Cyngor wedi rhoi talebau bwyd gwerth miloedd o bunnoedd i deuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd. Mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi banciau bwyd a chynlluniau bwyd lleol gyda grantiau gwerth rhwng £500 a £1,500 ar gael, ac mae 35 o brosiectau wedi cael eu hariannu ers mis Ebrill 2022. Aeth yr Arweinydd ati i gydnabod bod pedwar prif fanc bwyd Trussell ledled y Fwrdeistref Sirol wedi cael cyllid gwerth £70k a nwyddau gwerth £10k trwy broses gaffael y Cyngor ers mis Ebrill 2022.

Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod gan y Cyngor 80 o Ganolfannau Croeso wedi'u gwirio, yn ogystal â llyfrgelloedd, sydd wedi'u sefydlu fel 'canolfannau clyd' i gefnogi unigolion. Hyd yn hyn, mae 56 o geisiadau am Gronfa Caledi y Gaeaf wedi cael eu cymeradwyo ac mae £82,688 wedi cael ei dalu.

### **GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION**

Nododd yr Arweinydd fod 2022 wedi bod yn flwyddyn heriol arall, gyda gofal cymdeithasol o dan bwysau mawr yn gyffredinol. Er gwaethaf hyn, mae'r Cyngor a'i staff rheng flaen wedi parhau i ofalu a chefnogi'r miloedd o bobl i'r safon orau bosibl. Mae Cyngor RhCT a Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg yn arwain y ffordd o ran rhai mentrau, megis gwasanaethau Cadw'n Iach Gartref sydd wedi ennill gwobrau. Mae hyn wedi helpu i osgoi achosion o gleifion mewnol yn cael eu derbyn i'r ysbyty neu wedi helpu trwy gynnig cymorth i gleifion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Y canolbwynt a'r nod o hyd yw hyrwyddo annibyniaeth a rhoi cymorth i drigolion i fyw yn eu cartrefi eu hunain am gyhyd ag y bo modd.

Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod y Cyngor yn darparu 15,000 o oriau o ofal a chymorth bob wythnos i dros 1,300 o deuluoedd. Ym mis Chwefror, cytunodd y Cabinet ar fuddsoddiad cyfalaf rhagamcanol gwerth £60 miliwn ym 4 cartref gofal ychwanegol a gofal preswyl i barhau i foderneiddio gwasanaethau gofal preswyl a diwallu anghenion pobl sy'n newid yn barhaus. Yn ogystal â chadw 5 cartref gofal y Cyngor. Hefyd, mae buddsoddiad parhaus gwerth £30 miliwn wedi bod yn y rhaglen datblygu llety Gofal Ychwanegol ac mae tri chynllun yn cynnig 140 o welyau ar hyn o bryd. Amlinellodd yr Arweinydd fuddion llety Gofal Ychwanegol ar gyfer cyplau ag anghenion gwahanol.

### **GWASANAETHAU I BLANT**

Cyfeiriodd yr Arweinydd at y maes yma sydd hefyd o dan bwysau mawr. Mae'r gwasanaeth wedi derbyn 25,412 o geisiadau i ymateb i anghenion lles teuluoedd yn ystod y flwyddyn diwethaf. Tynnodd sylw at waith a'r galw am y Gwasanaeth Teuluoedd Cydnerth sy'n parhau i ddelio â galw cynyddol. Mae nifer y bobl sy'n ymgysylltu â'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid

hefyd yn parhau i gynyddu, gyda chynnydd o 410% yn 2021-2022, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod y Cyngor wedi parhau â'i addewid i ddarparu'r cerbydau sy'n boblogaidd ymhlith pobl ifainc fel lle diogel i ymgysylltu â'r rheiny sy'n wynebu'r risg fwyaf.

### **MANNAU CHWARAE**

Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod y Cyngor yn parhau â'i addewid i wella pob man chwarae. Mae 13 o fannau chwarae wedi'u cwblhau yn 2022/23 er gwaethaf yr anawsterau o ran recriwtio contractwyr. Mae £200k arall wedi'i ddyrannu ar gyfer 2 Ardal Gemau Aml-ddefnydd arall yn y flwyddyn ariannol newydd.

### **HAMDDEN**

Nododd yr Arweinydd fod y Cyngor wedi parhau i fuddsoddi mewn Gwasanaethau Hamdden, ac ychwanegodd fod gan RCT un o'r arlwyon hamdden mewnol gorau yng Nghymru. Dydy'r Cyngor ddim wedi trefnu contract gyda chyflenwr allanol, ac mae'n parhau i fuddsoddi mewn cyfleusterau trwy wrando ar staff ac ymateb i anghenion trigolion. Mae'r Cyngor wedi rhagori ar nifer yr aelodau hamdden cyn y pandemig, sef dros 10,300 o aelodau. Mae'r Cyngor wedi darparu ei 14eg cae 3G yng Nghaeau Baglan (mis Hydref) a bydd gwaith ar gae 3G Parc y Darren yn dechrau'n fuan. Ychwanegodd yr Arweinydd fod y Cyngor wedi cyflawni ei ymrwymiad i ddarparu cyfleuster 3G o fewn 3 milltir i bob aelwyd yn RhCT.

### **NEWID YN YR HINSAWDD**

Cyfeiriodd yr Arweinydd at Fioamrywiaeth/Mawndiroedd y Cyngor a sut mae'n parhau i gynyddu nifer y safleoedd ar gyfer bioamrywiaeth (tiroedd cyffredin a ffyrdd osgoi lle mae blodau gwyllt).

Amlinellodd yr Arweinydd rai cynlluniau penodol, megis:

#### Cymorth Ynni

Mae'r Cyngor wedi cefnogi dros 60 o grantiau gwresogi sydd wedi'u cwblhau hyd yn hyn yn 2023, gyda 200 o geisiadau eraill sydd wedi dod i law.

#### Cynlluniau Arloesol

Cafodd Ffynnon Dwym Ffynnon Taf ei chwblhau yn yr hydref. Dyma'r unig un yng Nghymru, ac mae'n un o bedair ffynnon dwym yn y DU. Mae bellach yn darparu gwres carbon isel i'r pafiliwn ac Ysgol Gynradd Ffynnon Taf.

Mae cymeradwyaeth wedi'i cheisio i gynnal rhagor o astudiaethau dichonoldeb ar gyfer cynlluniau trydan dŵr posibl yn Nghored Trefforest a Pharc Gwledig Cwm Dâr.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i leihau ei ôl troed ers 2009 ac mae wedi gwario dros £10.5 miliwn ar brosiectau arbed ynni. Mae hyn wedi arwain at arbedion gwerth dros £2.3 miliwn y flwyddyn ar gyfer ysgolion, cartrefi gofal, canolfannau hamdden ac adeiladau corfforaethol, a gostyngiad o bron i 6,000 o dunelli mewn allyriadau.

#### Trafnidiaeth

Cyflwynodd y Cyngor Strategaeth Wefru Cerbydau Trydan ac mae wedi cyflwyno isadeiledd mewn nifer o feysydd parcio'r Cyngor, gyda chyfnod

cyflwyno pellach yn y dyfodol agos yn sgil cyllid rhanbarthol a phellach gan Lywodraeth Cymru i weithredu nifer o wefrwyr cyflym at ddefnydd ein trigolion.

## **PRIFFYRDD A TRAFNIDIAETH**

### Tomenni Glo, Rheoli Perygl Llifogydd, Draenio/Lliniaru Llifogydd

Cyfeiriodd yr Arweinydd at fuddsoddiad enfawr mewn rheoli perygl llifogydd ac atgyweiriadau oherwydd difrod stormydd, gyda £20 miliwn wedi'i fuddsoddi mewn atgyweirio difrod ar bontydd fel y Bont Wen a Phont y Castle Inn, gyda chynigion am fuddsoddiad llifogydd pellach i uwchraddio ceuffosydd a sicrhau bod y fwrdeistref sirol wedi'i diogelu cymaint â phosibl. Ychwanegodd fod Safleoedd Derbynnnydd Cam 2 a 3 Tomen Tylorstown ar y cam Cynllunio ar gyfer defnydd parhaol, tra bod contract Cam 4 wedi'i ddyfarnu a pharatoadau ar y gweill i'r gwaith ddechrau yn y gwanwyn.

### Rhaglen Gyfalaf ac Isadeiledd

Dywedodd yr Arweinydd fod y rhaglen gyfalaf yn RhCT wedi bod yn sylweddol, gan fwrw £172 miliwn, ffigur uchaf erioed i'r Cyngor - cynhaliwyd adolygiad o'i gronfeydd wrth gefn a thanwariant i dynnu unrhyw arian ychwanegol i mewn.

### Prosiectau Mawr a'r Metro

Cyfeiriodd yr Arweinydd at gefnogaeth y Cyngor i welliannau'r Metro. Mae prosiect yr A4119 ar y gweill gyda'r contract wedi'i ddyfarnu, ac mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda ar y safle tuag at gwblhau'r datblygiad yn haf 2024.

### Prosiectau Strategol

Dywedodd yr Arweinydd fod hen adeiladau M&S a Dorothy Perkins/Burton's yn nhref Pontypridd wedi'u caffael a bod cyllid gan Lywodraeth Cymru wedi'i sicrhau i wneud y gwaith dymchwel. Mae ailddatblygiad y Miwni yng nghamau olaf y gwaith dylunio manwl ac mae trafodaethau ar y gweill gyda'r contractwr a ffafir i alluogi'r gwaith i ddechrau ar y safle erbyn yr haf. Dywedodd fod y gwaith ar adeilad yr YMCA hefyd ar fin cael ei gwblhau yn fuan.

## **ADDYSG**

### Arolygiadau

Dywedodd yr Arweinydd y bu 13 o arolygiadau craidd rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr 2022 ac nid oedd angen unrhyw arolygiad dilynol ar 84.6% o ysgolion. Yn seiliedig ar adroddiadau cyhoeddedig, mae un ysgol mewn Mesurau Arbennig ac un ysgol yn cael ei monitro gan Estyn. Diolchodd yr Arweinydd i holl staff yr ysgol am eu hymdrechion a'u cefnogaeth barhaus i'r holl bobl ifainc yn dilyn y pandemig.

### Canlyniadau Arholiadau

Amlygodd yr Arweinydd y canlyniadau a ganlyn:

Dangosodd canlyniadau **Cyfnod Allweddol 4** yn 2022 welliant o gymharu â lefelau cyn y pandemig.

O ran graddau A\*-C, roedd gwelliant o 5.8% pwynt ledled Cymru a chynnydd o 7.1% pwynt yn RhCT.

O ran graddau A\*-A, roedd cynnydd o 6.7% pwynt yng Nghymru, a thwf o 7.4% pwynt yn RhCT.

O ran **cyfnod allweddol 5** mae'r darlun ar gyfer y graddau uchaf, A\*-A, yn arbennig o gadarnhaol ar draws RhCT gyda phob ysgol yn cyflawni'n well nag

yn 2019 a bron i hanner yn cyflawni'n well nag yn 2021. Mae cyfartaledd RhCT yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd 2019 ac ychydig yn is na'r cyfartaledd yn 2021.

Dywedodd yr Arweinydd, mewn perthynas â graddau A\*-C - bod bron pob ysgol wedi cyflawni'n well yn 2022 o gymharu â 2019 sy'n dangos bod pethau'n gwella a'r broses arolygu yn gadarnhaol.

#### Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu (Ysgolion yr 21ain Ganrif) a Phrosiectau Eraill

Dywedodd yr Arweinydd fod y rhaglen Band B yn fwy na £272 miliwn. Yn ogystal â hynny, dim ond ddydd Gwener yr wythnos diwethaf y cymeradwywyd cyllid gwerth £15 miliwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ysgol newydd yng Nglyn-coch, sydd wedi cael ei hyrwyddo gan yr Aelod Lleol. Dywedodd yr Arweinydd fod yr uwchraddio a'r buddsoddiad mewn ysgolion ledled y fwrdeistref sirol yn amlwg ac yn glir, gyda thair ysgol newydd yn cael eu hadeiladu yn ne'r fwrdeistref sirol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd K Morgan at y 12 mis anodd diwethaf i gymunedau RhCT a soniodd am flaenoriaethau'r Cyngor i wasanaethu ei gymunedau a phwysigrwydd gwrandao ar ymatebion i ymgynghoriadau cyhoeddus. Cyfeiriodd y Cynghorydd Morgan at agwedd aeddfed y cytundeb cydweithredol gyda Plaid Cymru yn y Senedd, sydd wedi cefnogi llawer o'r heriau. O ran dadl yr Arweinydd, dywedodd y gallai fod wedi bod yn ddefnyddiol manteisio ar y Cwestiynau i'r Aelodau sy'n weddill o'r eitem agenda gynharach er mwyn ehangu'r ddadl.

Cynigiodd pob un o'r Arweinwyr Grŵp gwestiynau i'r Arweinydd, ac amlinellir rhai o'r ymatebion isod:

Pwysigrwydd adolygu cyfleusterau hamdden, yn enwedig storfeydd, i drigolion RhCT – Ymatebodd yr Arweinydd fod y Cyngor wedi ymrwymo i gefnogi chwaraeon ar lawr gwlad gyda buddsoddiad cyfalaf mewn meysydd megis caeau 3G ledled y fwrdeistref sirol. Ychwanegodd ei fod ef a rhai o'i Gabinet gyda Swyddogion wedi cyfarfod â thrigolion a chlybiau chwaraeon i wrando ar eu pryderon ac i helpu i fynd i'r afael â materion ac o ganlyniad i hynny, gwnaed gwelliannau sylweddol i ystafelloedd newid a chyfleusterau chwaraeon eraill.

Cyflwyno Cwestiynau i'r Cyngor (a yw hyn yn dangos bwlch gwybodaeth i Aelodau?) – Nid oedd yr Arweinydd yn cytuno bod hyn yn dangos bwlch gwybodaeth a nododd mai dim ond tri chwestiwn a gyflwynwyd gan aelodau Grŵp Plaid Cymru.

System addysg dwy haen RhCT – Dywedodd yr Arweinydd fod anawsterau'n parhau gyda'r niferoedd sy'n manteisio ar y cyrsiau, a'r nifer annigonol o fyfyrwyr sy'n ceisio cyrsiau penodol gydag ychydig o ysgolion uwchradd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer darpariaeth 6ed dosbarth (80 neu fwy o ddisgyblion). Ychwanegodd fod y Cyngor wedi uno'r darpariaethau a gwneud y camau rhesymoli angenrheidiol o ran cyrsiau ym mhob ysgol er mwyn darparu'r cynnig angenrheidiol o bynciau Lefel A.

Materion traffig/tagfeydd ym Mhontypridd – Dywedodd yr Arweinydd y bydd cyflwyno'r Metro yn dod â 24 o drenau drwy Bontypridd bob awr, a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar faterion trafndiaeth yn ardal Pontypridd, gan annog mwy o

ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus. Hefyd, cadarnhaodd yr Arweinydd y byddai cynigion ynghylch gwelliannau i fysiau/swyddfeydd y Cyngor yn cael eu cyhoeddi'n fuan.

Metro (cysylltedd ar gyfer gwasanaethau rheilffordd ar hyd coridor Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys) – Darparodd yr Arweinydd sicrwydd bod cyllid Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru ar gael ar gyfer yr estyniadau i reilffyrdd Hirwaun a Metro Gogledd-ddwyrain Caerdydd. Ychwanegodd fod nifer o opsiynau'n cael eu trafod ar gyfer Rheilffordd Gogledd-ddwyrain Caerdydd yn rhan o'r Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (bws rhedeg pwrpasol/bysiau trydan)

Diweddariad ar Gasgliadau Sbwriel (Amnewid bagiau ailgylchu plastig untro/bagiau gwastraff bwyd llai) – Cadarnhaodd yr Arweinydd y bydd bagiau ailgylchu bwyd newydd yn cael eu cyflwyno cyn bo hir a phan fydd y stoc bresennol yn cael ei defnyddio, ac ychwanegodd fod y bydd bagiau ailgylchu mae modd eu haildefnyddio'n gweithio'n dda ac yn well i'r amgylchedd (yn lle'r bagiau untro)

Agorodd y Llywydd gwestiynau i'r holl Aelodau:

Rhaglen Ffyrdd Heb eu Mabwysiadu £126K – Cadarnhaodd yr Arweinydd fod adroddiad ynghylch parhad y rhaglen ffyrdd heb eu mabwysiadu wedi cael ei ystyried yn ddiweddar gan y Cabinet. Mae gan y Cyngor raglen flynyddol sy'n cael eu chroesawu.

Ymwneud Aelodau Lleol ag achlysuron achredu'r Mudiad Meithrin – Sicrhaodd yr Arweinydd y Cyngor y byddai'r holl Aelodau lleol yn cael eu gwahodd i unrhyw ddigwyddiadau achredu/agoriadau mewn wardiau Aelod deuol, ond ychwanegodd y dylid cyfeirio unrhyw bryder unigol ato am ymateb.

Buddsoddiad Chwaraeon – Dywedodd yr Arweinydd fod gan y Cyngor ymrwymiad cryf i fuddsoddi mewn chwaraeon fel pêl-droed a rygbi ledled y fwrdeistref sirol, megis y caeau 3G, gyda chyllid wedi'i sicrhau gyda'r Gymdeithas Bêl-droed ar gyfer y cyfleuster ym Mharc y Darren ac ar gyfer ystafelloedd newid i ategu'r caeau 3G. Ychwanegodd fod gan y Cyngor ymrwymiad i hyrwyddo a sefydlu ysgolion o ragoriaeth ar gyfer Hoci a Phêl-rwyd.

Teuluoedd Cydnerth - Cydnabu'r Arweinydd ganmoliaeth yr Aelod unigol i raglen Teuluoedd Cydnerth y Cyngor a Gwifren Aelodau'r Gwasanaethau Cymdeithasol yr oedd yn cyd-fynd â hi, a sicrhaodd yr Aelod y byddai ei sylwadau cadarnhaol yn cael eu cyfleu.

Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol (Grant Cyfleusterau i'r Anabl) – Dywedodd yr Arweinydd fod dros £4 miliwn o fuddsoddiad (320 o grantiau) wedi'i ddyfarnu dros y flwyddyn ddiwethaf.

Newidiadau i Wasanaethau Gwastraff – Dywedodd yr Arweinydd y dylai 80% o sbwriel trigolion gael ei ailgylchu yn ôl ffigyrau Cenedlaethol ond ychwanegodd fod gan y Cyngor fecanweithiau yn eu lle i gefnogi teuluoedd a allai gael trafferth gyda newidiadau i'r gwasanaethau gwastraff. Ychwanegodd fod y Cyngor hefyd yn cynnig cynllun casglu cewynnau wythnosol, rhad ac am ddim, a chynllun gwastraff bwyd i drigolion a bydd yn cyflwyno cynllun yn fuan i ailgylchu offer trydanol bach preswylwyr fel haearn smwddio neu dostiwr o fan casglu dynodedig. Eglurodd yr Arweinydd y bydd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eraill



yn symud i gasgliad bob tair wythnos neu, mewn rhai achosion, casgliad bob pedair wythnos.

Diweddariad ar y pwysau cyllidebol – Dywedodd yr Arweinydd fod lefel bresennol y pwysau cyllidebol yn ddi-baid gyda charfanau ariannol y Cyngor yn sicrhau bod yr holl gyllid allanol sydd ar gael wedi'i gyrchu. Eglurodd yr Arweinydd fod lefel treth y cyngor wedi'i chodi i 3.9% yn wyneb y pwysau cynyddol ar ofal cymdeithasol a'r pwysau ychwanegol, a'i bod yn bwysig pennu cyllideb gytbwys. Ychwanegodd y bydd trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu prydau ysgol am ddim yn wyneb y costau bwyd cynyddol. Rhybuddiodd y bydd y pwysau yn parhau am beth amser ac y bydd yn heriol i'r awdurdod lleol fynd i'r afael â gorwario.

Wardeiniaid Cymunedol – Dywedodd yr Arweinydd fod y wardeiniaid cymunedol yn gweithio'n dda o fewn y cymunedau ledled y fwrdeistref sirol ond atgoffodd y Cyngor nad ydynt yn cymryd lle swyddogion Heddlu De Cymru, ond y byddant yn gweithio gyda nhw. Atgoffodd yr Aelodau y bydd gan y Cyngor 14 o wardeniaid cymunedol a 10 PCSO ar lawr gwlad yn fuan yn gweithio gyda'r Heddlu, yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn rhoi dirwyon lle bo'n briodol am droseddau megis cŵn yn baeddu ond, yn gyffredinol, yn wyneb cyfeillgar sy'n rhoi cefnogaeth yn y gymuned i drigolion.

Cronfeydd wrth Gefn y Gyllideb – Cynigiodd yr Arweinydd y byddai cyflwyniad yn cael ei drefnu yn y dyfodol i'r holl Aelodau er mwyn cael dealltwriaeth o gronfeydd wrth gefn y Cyngor. Ychwanegodd y bydd rhai o gronfeydd wrth gefn y Cyngor yn cael eu defnyddio yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod £9.1 miliwn, (£5 miliwn ar gyfer ynni wrth gefn/£4.1 miliwn wrth gefn trosiannol) £3 miliwn yn darparu cymorth uniongyrchol i deuluoedd gyda'r taliad costau byw, efallai y bydd angen rhywfaint o gymorth i gefnogi'r trydydd sector gyda'i gostau ynni. Bydd y cyflwyniad yn egluro sut mae'r cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio, yn ogystal â rhoi gwybodaeth bellach am gronfeydd yswiriant, y gronfa wrth gefn gyffredinol, y cronfeydd trosiannol, ble mae'r hyblygrwydd a sut mae'r rhaglen gyfalaf yn cael ei hariannu ar gyfer priffyrdd, ffyrdd heb eu mabwysiadu ac ati.

Yr ysgol newydd 3-16 Pontypridd (yn ymwneud â materion megis lleihau ôl troed carbon a chynaliadwyedd) – Gwahoddodd yr Arweinydd yr Aelod i ohebu'n uniongyrchol ag ef ar y mater hwn i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon, a dywedodd y byddai'n ymweld â'r safle newydd yn fuan.

Materion Hygyrchedd/Symudedd (cyrbau isel)- Dywedodd yr Arweinydd fod y Rhaglen Gyfalaf wedi nodi 50 o gynlluniau llwybrau troed lle bydd cyrbau isel yn cael eu gosod lle bo angen. Ychwanegodd fod £15K ar gael i fynd i'r afael â chyrbau isel yng nghanol trefi a lleoliadau allweddol fel meddygfeydd a chanolfannau cymunedol. Yn ddiweddar yn Llanharan, darparwyd arian cyfatebol gyda'r cyngor cymuned i hwyluso hyn, gyda thrafodaethau ar y gweill ynghylch cyfle tebyg yn Nhonyrefail.

Adfywio Tref Pontypridd – Dywedodd yr Arweinydd y byddai cynigion pellach yn cael eu cyhoeddi maes o law mewn perthynas ag adfywio Pontypridd.

Ffyrdd heb eu Mabwysiadu – Cadarnhaodd yr Arweinydd fod gwaith ar y rhaglen ffyrdd heb eu mabwysiadu yn parhau (£300K) ac yn ward yr Aelodau (Llwydcoed) byddai gwaith yn cael ei wneud.

Diolchodd y Llywydd i'r Arweinydd am ei ddadl a'i ymatebion i'r Aelodau.

## 103 STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyfadran Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen yr adroddiad blynyddol yn hysbysu bod gweithgareddau benthyca a buddsoddi Rheolaeth y Trysorlys yn cael eu rheoleiddio'n fanwl, a'u bod yn cael eu cynnal yn unol â'r Codau Ymarfer proffesiynol perthnasol. Ychwanegodd fod cynnal adolygiad ymlaen llaw o'r strategaeth Rheoli'r Trysorlys cyn dechrau'r flwyddyn ariannol newydd yn ofyniad penodol, yn yr un modd â'r adolygiad canol blwyddyn ffurfiol ac adolygiad diwedd blwyddyn.

Dywedodd y Cyfarwyddwr, fel y nodir yn yr adroddiad, fod gan y Cyngor £297.6 miliwn o fenthyca ar gyfradd llog gyfartalog o 3.07% gyda gofyniad benthyca ar gyfer y flwyddyn nesaf o £19.6 miliwn. Bydd hyn yn ariannu'r rhaglen gyfalaf y cytunwyd arni bellach, a bydd yn ategu hyn trwy bennu dyled tymor hwy os yw'r amgylchedd economaidd a rhagamcanion cyfraddau llog yn mynnu, ac yn unol â chyngor gan gynghorwyr Rheoli'r Trysorlys y Cyngor. Bydd hyn yn unol â sefyllfa tanfenthyca'r Cyngor, y mae'r Cyngor wedi parhau i'w dal ers nifer o flynyddoedd, ac mae'r Cyngor yn parhau i gael ei wobrwyo gyda chost cyllid cyfalaf net is.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran, o ran strategaeth fuddsoddi'r Cyngor, fod y Cyngor yn parhau i fenthyg arian i sefydliadau yn y sector cyhoeddus a sefydliadau a gefnogir gan y Llywodraeth gan gydnabod blaenoriaeth diogelwch a hylifedd yn hytrach nag elw.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Cyfadran yr Aelodau at baragraff 16 ar gyfer dangosyddion a therfynau Rheoli Trysorlys y Cyngor a'r Polisi MRP a nodir yn adran 17 sy'n parhau i ddileu benthyca â chymorth y Cyngor ar sail llinell syth dros 40 o flynyddoedd.

Yn dilyn trafodaeth ar Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor, **PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Strategaeth Fuddsoddi, Dangosyddion y Trysorlys, a Datganiad Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw fel y nodir yn yr adroddiad;
2. Cymeradwyo'r Datganiad Polisi Rheoli'r Trysorlys wedi'i ddiweddarau (Atodiad 1) a'r Cymalau Rheoli'r Trysorlys (Atodiad 2).

(**Nodyn:** Datganodd y Cynghorydd K Johnson fuddiant (gweler Cofnod Rhif 97) – “Rwy'n un o gyflogeion Trafnidiaeth Cymru”)

## 104 ADRODDIAD STRATEGAETH GYFALAF 2023/24

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Cyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Rheng Flaen yr Adroddiad Strategaeth Gyfalaf statudol blynyddol 2023/24 sy'n nodi trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, fel y cytunwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor, yn cael ei ariannu, fel y nodir yn yr adran 6 o'r adroddiad. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Cyfadran ei fod yn cynnwys gofynion cyllido cyfalaf y Cyngor (CFR) sef yr angen sylfaenol i fenthyca i ariannu cynlluniau gwariant hanesyddol a chyfredol y Cyngor. Fel y cyfeiriwyd yn flaenorol, dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran fod hyn yn dangos sefyllfa o dan fenthyca sylweddol yn unol â chyngor ymgynghorwyr y Trysorlys.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyfadran y byddai'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r datganiad Strategaeth Gyfalaf yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio at ddibenion adolygu a chraffu'n benodol yn unol â'r codau ymarfer perthnasol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r adroddiad Strategaeth Gyfalaf sy'n ymgorffori'r Dangosyddion Darbodus.

(**Nodyn:** Datganodd y Cynghorydd J Brencher fuddiant personol (gweler Cofnod Rhif 97) – "Mae fy mab yn gyfarwyddwr Trafnidiaeth Cymru")

## **105 DATGANIAD 2023/24 Y CYNGOR AR BOLISI CYFLOGAU**

Yn unol ag Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011, rhoddodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol wybodaeth i'r Aelodau am Ddatganiad Polisi Cyflogau 2023/24 y Cyngor. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr yr Aelodau at baragraffau 3.1 i 3.2 a oedd yn nodi'r cyd-destun cyfreithiol ar gyfer yr angen am y polisi tâl a pharagraffau 4.1-4.9 sy'n cyfeirio at y cefndir i'r polisi tâl, yr angen am gymeradwyaeth y Cyngor Llawn ac yn cyfeirio at y Datganiad Polisi Cyflogau yn Atodiad A i'r adroddiad.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r Datganiad ar Bolisi Cyflogau, sef Atodiad A yr adroddiad.

## **106 CYNLLUN LLESIANT CWM TAF 2023-2028**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cyngor i Gynllun Llesiant drafft 2023-2028 ar gyfer rhanbarth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lunio a chyhoeddi cynllun llesiant lleol sy'n nodi'r amcanion llesiant ar gyfer y rhanbarth a'r camau y bydd yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny. Mae hyn yn ofynnol bob pum mlynedd ac mae'r cynllun yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd drwy asesiad llesiant cynhwysfawr a ddisgrifir yn adran 6 o'r adroddiad.

Darparodd y Prif Weithredwr fanylion am ddatblygiad y cynllun a oedd yn cynnwys proses ymgynghori gynhwysfawr gyda rhanddeiliaid a chymunedau ac a oedd yn cynnwys ystyriaeth o'r cynllun drafft gan y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 20 Ionawr 2023, yn rhan o'r ymarfer ymgynghori, cafodd drafft terfynol ei ystyried gan y Cabinet ar 27 Mawrth 2023.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod gan y cynllun ddau brif amcan, sy'n deillio o'r asesiad lles, mae'r cyntaf yn ymwneud â chymdogaethau lleol iach a'r ail amcan yw cymdogaethau lleol cynaliadwy a gwydn. Ychwanegodd fod y cynllun llawn, sydd ynghlwm yn Atodiad A, yn gynllun strategol lefel uchel gyda chynlluniau cyflawni manwl a fydd yn cael eu datblygu dros y misoedd nesaf wrth i ddau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y rhanbarth gael eu huno yn un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg, gyda strwythur cyflawni diwygiedig.

Dywedodd y Prif Weithredwr y bydd y Cyngor yn myfyrio ar yr amcanion hyn wrth iddo ddatblygu ei Gynllun Corfforaethol newydd ar gyfer 2024 ymlaen a dywedodd, yn amodol ar y Cyngor yn cymeradwyo'r cynllun, y byddai'r camau nesaf yn cynnwys gweithredu'r trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer ardal

ranbarthol newydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CTM, buddsoddi yn natblygiad y Bwrdd gyda'i aelodaeth newydd, datblygu cynllun cyflawni manylach, trefniadau ynghylch gwerthuso a mesurau canlyniadau a sicrhau bod ymgysylltu a chynnwys parhaus gyda rhanddeiliaid a chymunedau drwy gydol y broses.

Yn dilyn trafodaeth, roedd **PENDERFYNWYD** cymeradwyo Cynllun Llesiant Cwm Taf Morgannwg fel yr amlinellwyd yn Atodiad A yr adroddiad.

(**Nodyn:** Datganodd y Cynghorydd K Morgan fuddiant (gweler Cofnod Rhif 97) – “Rydw i'n gweithio i Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg”)

107

## Rhybudd o Gynnig

**11A Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol** D Grehan, A Rogers, K Morgan, S Evans, A Ellis, H Gronow, D Wood, P Evans:

Mae'r Cyngor yma'n gwerthfawrogi'r materion sy'n cael eu codi mewn Rhybuddion o Gynnig pan fo'r prif ddiben yn ymwneud â dylanwadu ar ganlyniadau cadarnhaol er budd cyhoeddus ehangach ein trigolion, ond sy'n gyfrifoldeb ar sefydliadau eraill.

Er bod gan y Cyngor fecanwaith ar gyfer adrodd ar ganlyniadau Rhybuddion o Gynnig sy'n cyfeirio'r mater at bwyllgor neu swyddogion eraill, does dim mecanwaith i roi gwybod i'r Aelodau am gynnydd unrhyw gynigion sy'n gofyn am gyfleu negeseuon ar ran y Cyngor ar hyn o bryd.

Mae llawer o enghreifftiau o'r Cyngor yma'n penderfynu, yn drawsbleidiol, bod Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at Weinidogion ar lefel Cymru a'r DU i leisio ein pryderon ar faterion sy'n effeithio ar ein hetholwyr, ond does dim mecanwaith ffurfiol ar waith i adrodd ar gynnydd neu ganlyniadau camau gweithredu o'r fath ar gyfer y cofnod cyhoeddus.

Enghraifft arall yw ein cais y byddai rhagor o deuluoedd sy'n byw mewn tldi tanwydd ar eu hennill pe byddai'r Gweinidog perthnasol yng Nghymru yn ehangu meini prawf cymhwysedd rhaglen NYTH. Ym mis Mawrth 2022 penderfynwyd bod Arweinydd y Cyngor yn ysgrifennu at y Darparwyr Tai Cymdeithasol yn y sir i ofyn iddyn nhw roi o leiaf pythefnos o amser ychwanegol yn dilyn angladd anwyliaid er mwyn galluogi perthnasau i symud eu heiddo o'u cartrefi. Mae llawer o enghreifftiau eraill, fel y bydd y cofnod yn ei ddangos. Dydyn ni yn Gyngor Llawn ddim wedi derbyn adborth ar unrhyw un o'r materion yma er mwyn asesu pa mor effeithiol oedden nhw o ran cyflawni'r canlyniadau dymunol.

### **Mae'r Cyngor yma, felly, yn penderfynu:**

Gofyn i'r Swyddog Priodol gyflwyno adroddiad i'w drafod gan Bwyllgor Cyfansoddiad y Cyngor cyn Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol y Cyngor, sy'n ystyried opsiynau a mecanwaith ar gyfer adrodd yn ffurfiol ar ganlyniad ac effaith negeseuon ar ran y Cyngor a wnaed gan Aelodau yn dilyn mabwysiadu Rhybuddion o Gynnig.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Rhybudd o Gynnig.

**11B Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol D Grehan, S Evans, K Morgan, A Rogers, A Ellis, H Gronow, D Wood, P Evans**

Mae'r Cyngor yma'n cydnabod bod lefelau tlodi plant yn Rhondda Cynon Taf yn parhau i gynyddu, a'u bod nhw'n debygol o waethgu o ganlyniad i'r argyfwng costau byw.

Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y cysylltiad rhwng tlodi plant a chyrhaeddiad addysgol.

Mae'r Cyngor yn credu bod setliadau cyllideb Llywodraeth Leol sydd o dan wasgfa yn bryder, a bod perygl y byddan nhw'n effeithio ar ymyraethau wedi'u targedu i fynd i'r afael â thlodi plant a chyrhaeddiad addysgol.

Er gwaethaf targedau blaenorol wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant erbyn 2020, mae tlodi plant yn Rhondda Cynon Taf yn parhau i gynyddu, gyda rhai adrannau etholiadol yn parhau i fod ymhlith y gwaethaf yn y DU. Er gwaethaf ymdrechion gorau staff addysgu yn RhCT, mae cysylltiad amlwg rhwng y tlodi yma a chyrhaeddiad addysgol.

Rhaid i liniaru effaith yr argyfwng costau byw, a hynny'n syth ar ôl pandemig Covid a llifogydd dinistriol 2020 ledled y fwrdeistref sirol, fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Dylid cymryd camau i fynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol sy'n bwnc llawer o dystiolaeth. Rhaid i bob disgybl gael pob cyfle posibl i dderbyn yr addysg ardderchog y mae'r Cyngor yn awyddus i'w chyflawni wrth symud ymlaen.

Er mwyn gwneud cynnydd cynnar ac effeithiol mewn perthynas â'r cynnydd mewn tlodi plant, mae'r Cyngor yn penderfynu:

- Parhau i amddiffyn cyllidebau ysgolion a sicrhau eu bod nhw wedi'u hariannu'n llawn ar gyfer y pwysau ariannol maen nhw'n eu hwynebu, a sicrhau bod modd i blant ddal i fyny yn dilyn effaith y pandemig.
- Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu ymyraethau tlodi allweddol, fel sydd wedi'i nodi yn y Cytundeb Cydweithio rhwng Plaid Cymru a Llafur Cymru, sy'n cynnwys prydau ysgol am ddim i holl ddisgyblion ysgolion cynradd.

Mae'r Cyngor yn gofyn bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu priodol:

- Sy'n cynnig opsiynau i ddatblygu Strategaeth Tlodi Plant, sydd i'w rhoi ar waith ar draws pob gwasanaeth perthnasol, gan gynnwys addysg
- Sy'n sicrhau bod plant, disgyblion, rhieni, staff addysgu, undebau addysgu a phobl berthnasol eraill, yn ogystal â Phwyllgorau Craffu priodol, yn cael cyfle i gymryd rhan yng ngwaith datblygu a chraffu ar y Strategaeth Tlodi Plant cyn ei mabwysiadu.

**Cyhoeddodd y Cadeirydd, yn unol a Rheol 10.4.1 o Reol Gweithdrefnu'r Cyngor, fod diwygiad i'r rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cyngorwyr y Fwrdeistref Sirol R Lewis, A Morgan OBE, L. Addiscott, M. D. Ashford, J. Barton, D. R. Bevan, J. Bonetto, S. Bradwick, J. Brencher, G. Caple,**

J. Cook, A. Crimmings, S. J. Davies, R. Davis, A. J. Dennis, V. Dunn, E. L. Dunning, J. Edwards, J. A. Elliott, L. Ellis, S. Emanuel, R. Evans, A. S. Fox, B. Harris, S. Hickman, G. Holmes, G. Hopkins, W. Hughes, G. Jones, G. O. Jones, W. Lewis, C. Leyshon, M. Maohoub, C. Middle, N. H. Morgan, S. Morgans, M. A. Norris, D. Owen-Jones, D. Parkin, S. Powderhill, C. Preedy, S. Rees, A. Roberts MBE, J. Smith, G. Stacey, L. A. Tomkinson, W. Treeby, J. Turner, G. L. Warren, K. Webb, M. Webber, D. Williams, G. E. Williams, R. Williams, T. Williams, R. Yeo.

### **Roedd y Cynnig Diwygiedig yn nodi:**

Mae'r Cyngor yma'n cydnabod bod lefelau tlodi plant yn Rhondda Cynon Taf yn parhau i gynyddu, a'u bod nhw'n debygol o waethgu o ganlyniad i'r argyfwng costau byw.

Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y cysylltiad rhwng tlodi plant a chyrhaeddiad addysgol.

Mae'r Cyngor yn credu bod setliadau cyllideb Llywodraeth Leol sydd o dan wasgfa yn bryder, a bod perygl y byddan nhw'n effeithio ar ymyraethau wedi'u targedu i fynd i'r afael â thlodi plant a chyrhaeddiad addysgol.

Er gwaethaf targedau blaenorol wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru i ddileu tlodi plant erbyn 2020, mae tlodi plant yn Rhondda Cynon Taf yn parhau i gynyddu, gyda rhai adrannau etholiadol yn parhau i fod ymhlith y gwaethaf yn y DU. Er gwaethaf ymdrechion gorau staff addysgu yn RhCT, mae cysylltiad amlwg rhwng y tlodi yma a chyrhaeddiad addysgol.

Rhaid i liniaru effaith yr argyfwng costau byw, a hynny'n syth ar ôl pandemig Covid a llifogydd dinistriol 2020 ledled y fwrdeistref sirol, fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Dylid cymryd camau i fynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol sy'n bwnc llawer o dystiolaeth. Rhaid i bob disgybl gael pob cyfle posibl i dderbyn yr addysg ardderchog y mae'r Cyngor yn awyddus i'w chyflawni wrth symud ymlaen.

Er mwyn gwneud cynnydd cynnar ac effeithiol mewn perthynas â'r cynnydd mewn tlodi plant, mae'r Cyngor yn penderfynu:

***Nodi bod cyfanswm cyllideb ysgolion wedi cynyddu 28% yn ystod y 10 mlynedd diwethaf o gymharu â chynnydd o 11% yn y gyllideb gyffredinol. Mae hyn yn cyfateb i £25 miliwn ychwanegol a ddarparwyd i ysgolion o gymharu â gwasanaethau eraill y Cyngor***

***- Nodi bod cyllideb Ysgol ar gyfer 23/24 yn £187 miliwn (cynnydd o 7.9%) o 22/23 o gymharu â chynnydd o 6.6% yn setliadau Llywodraeth Cymru ar gyfer RhCT.***

***- Nodi bod data cymharol cyhoeddedig yn dangos bod gwariant cyllidebol RhCT fesul disgybl ar gyfer 2022/23, sef £6,867, yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef £6,773.***

**- Parhau i flaenoriaethu cyllidebau ysgolion a sicrhau bod plant yn gallu dal i fyny yn dilyn effaith y pandemig.**

- Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu ymyraethau tlodi allweddol, fel sydd wedi'i nodi yn y Cytundeb Cydweithio rhwng Plaid

Cymru a Llafur Cymru, sy'n cynnwys prydau ysgol am ddim i holl ddisgyblion ysgolion cynradd.

Mae'r Cyngor yn gofyn bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu priodol:

- Sy'n cynnig opsiynau i ddatblygu Strategaeth Tlodi Plant, sydd i'w rhoi ar waith ar draws pob gwasanaeth perthnasol, gan gynnwys addysg
- Sy'n sicrhau bod plant, disgyblion, rhieni, staff addysgu, undebau addysgu a phobl berthnasol eraill, yn ogystal â Phwyllgorau Craffu priodol, yn cael cyfle i gymryd rhan yng ngwaith datblygu a chraffu ar y Strategaeth Tlodi Plant cyn ei mabwysiadu.

Yn unol â Rheolau Gweithdrefn 12.6 y Cyngor, cynhaliwyd pleidlais mewn perthynas â'r diwygiad i'r Rhybudd o Gynnig a **PHENDERFYNWYD** mabwysiadu'r diwygiad. Yn dilyn trafodaeth bellach mewn perthynas â'r cynnig gwreiddiol **PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r cynnig.

**(Nodwch:** Roedd Y Cyngorydd K Morgan yn dymuno cofnodi ei fod wedi pleidleisio yn erbyn y Rhybudd o Gynnig diwygiedig a'r Rhybudd o Gynnig gwreiddiol)

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 pm**

**Y Cyngorydd G Hughes  
Cadeirydd.**







## PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CYNGOR

Cofnodion o Wythfed Cyfarfod Cyffredinol Cyngor Blynyddol Ar Hugain o **GYNGOR  
BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** ar 10fed Mai 2023 am 4pm

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion [yma](#)

### **Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Cyngorwyr canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:-**

Y Cyngorydd G Hughes (Cadeirydd)

Y Cyngorydd S Evans	Y Cyngorydd B Stephens
Y Cyngorydd L Addiscott	Y Cyngorydd M Ashford
Y Cyngorydd P Binning	Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd S Bradwick	Y Cyngorydd J Bonetto
Y Cyngorydd G Caple	Y Cyngorydd J Brencher
Y Cyngorydd A Crimmings	Y Cyngorydd J Cook
Y Cyngorydd R Davis	Y Cyngorydd S J Davies
Y Cyngorydd V Dunn	Y Cyngorydd A Dennis
Y Cyngorydd J Edwards	Y Cyngorydd E L Dunning
Y Cyngorydd L Ellis	Y Cyngorydd A J Ellis
Y Cyngorydd D Evans	Y Cyngorydd S Emanuel
Y Cyngorydd R Evans	Y Cyngorydd P Evans
Y Cyngorydd H Gronow	Y Cyngorydd D Grehan
Y Cyngorydd S Hickman	Y Cyngorydd B Harris
Y Cyngorydd W Jones	Y Cyngorydd G Holmes
Y Cyngorydd W Lewis	Y Cyngorydd W Hughes
Y Cyngorydd C Lises	Y Cyngorydd G Jones
Y Cyngorydd C Middle	Y Cyngorydd R Lewis
Y Cyngorydd N H Morgan	Y Cyngorydd C Leyshon
Y Cyngorydd W Owen	Y Cyngorydd M Maohoub
Y Cyngorydd M Norris	Y Cyngorydd A Morgan
Y Cyngorydd M Powell	Y Cyngorydd S Morgans
Y Cyngorydd A Roberts	Y Cyngorydd Owen-Jones
Y Cyngorydd J Smith	Y Cyngorydd G Stacey
Y Cyngorydd L A Tomkinson	Y Cyngorydd S Trask
Y Cyngorydd G L Warren	Y Cyngorydd W Treeby
Y Cyngorydd M Webber	Y Cyngorydd D Williams
	Y Cyngorydd D Wood

### **Roedd y Cyngorwyr canlynol yn bresennol ar-lein:-**

Y Cyngorydd J Barton	Y Cyngorydd G Hopkins
Y Cyngorydd Sera Evans	Y Cyngorydd A S Fox
Y Cyngorydd K Johnson	Y Cyngorydd S Rees

Y CYnghorydd A Rogers      Y Cynghorydd D Parkin  
Y CYnghorydd J Turner      Y Cynghorydd K Webb  
Y CYnghorydd D Williams    Y Cynghorydd R Yeo

### **Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr P Mee, Prif Weithredwr  
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol  
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol  
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democraidaidd a Chyfathrebu  
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol

### **Ymddiheuriadu am absenoldeb**

Y Cynghorydd J Elliott    Y Cynghorydd G O Jones  
Y Cynghorydd K Morgan    Y Cynghorydd S Powderhill  
Y Cynghorydd C Preedy    Y Cynghorydd G E Williams  
Y Cynghorydd T Williams

#### **1      DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r Agenda.

#### **2      Ethol Llywydd y Cyngor**

**PENDERFYNWYD** – ethol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes i fod yn Llywydd ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023/24.

Yn dilyn hyn, cymerodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Hughes y Gadair ac anerchodd y Cyngor yn ei rôl fel Llywydd.

#### **3      Etholiadau a Phenodiadau**

##### **Ethol Dau Ddirprwy Lywydd y Cyngor**

**PENDERFYNWYD** – ethol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Sheryl Evans i fod yn Ddirprwy Lywydd cyntaf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023/24.

**PENDERFYNWYD** – ethol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol Barry Stephens yn ail Ddirprwy Lywydd ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023/24.

##### **Derbyn anerchiad gan Faer y Cyngor ar gyfer 2022-2023.**

Nododd y Maer diweddaraf, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Treeby, fod y flwyddyn ddiwethaf fel Maer wedi bod yn faint iddi. Rhoddodd ddiolch i drigolion, cymunedau a swyddogion oedd wedi ei chefnogi hi a'i helusennau. Ei phrif uchafbwyntiau'r flwyddyn oedd ymgysylltu â disgyblion ysgolion ledled RhCT a chwrrd â Chyn-filwyr RhCT.

Dywedodd y Cynghorydd Treeby ei bod wedi sicrhau dau grant gwerth £24k ar gyfer Ambiwlans Awyr Cymru a'r Gymdeithas Strôc, a rhoddodd ddiolch i bawb a oedd wedi ei helpu i wneud hyn. Dymunodd yn dda i'r Maer newydd ar gyfer y dyfodol.

Wrth ymateb i hyn, talodd Aelodau deyrnged i'r Maer sy'n ymddeol am ei holl waith ac ymdrechion caled yn ystod ei chyfnod yn y rôl.

### **Ethol Maer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-2024.**

**PENDERFYNWYD** - ethol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Lewis yn Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-2024.

Dywedodd Maer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-2024 fod cael ei hethol yn Faer Rhondda Cynon Taf yn anrhydedd enfawr. Talodd deyrnged i'r Maer diweddaraf, y Cynghorydd Treeby, am ei gwaith caled ac ymrwymiad i'r rôl.

Cyhoeddodd y Cynghorydd Lewis mai Mr Christopher Lewis a Dilys Jouvenat fyddai ei chydweddogion yn ystod ei chyfnod fel Maer RhCT. Yr elusennau y mae wedi'u dewis yw Brain Tumour Research, Natasha Allergy Research Foundation, SANDS (Cymdeithas Marw-enedigaethau a Marwolaethau Newyddanedigion) a Hope Rescue, yn ogystal â chefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol sydd ar ddod a'r Lluoedd Arfog.

Edrychodd y Cynghorydd Lewis ymlaen at weithio'n agos gyda'r Dirprwy Faer.

Dymunodd y Llywydd ac Arweinwyr y Grwpiau/Dirprwy Arweinwyr y Grwpiau yn dda i'r Maer newydd ar gyfer y flwyddyn nesaf.

### **Penodi Dirprwy Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023 - 2024.**

**PENDERFYNWYD** - ethol Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D Owen-Jones yn Ddirprwy Faer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-2024.

Llongyfarchodd y Dirprwy Faer y Maer newydd, yn ogystal â diolch am yr anrhydedd o gael ei ethol yn Ddirprwy Faer ar gyfer 2023-24.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Owen-Jones ei gydweddog sef ei ferch, Abbey Louise Owen-Jones.

### **Penodi Arweinydd y Cyngor.**

**PENDERFYNWYD** – penodi Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE yn Arweinydd y Cyngor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023/2024.

Rhoddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE ddiolch am gael ei ailbenodi'n Arweinydd y Cyngor. Nododd ei fod wedi bod yn Arweinydd Cyngor RhCT ers 2014 ac mae ei ailbenodiad yn golygu mai dyma'r cyfnod hiraf gan Arweinydd y Fwrdeistref Sirol. Aeth ati i gydnabod yr anrhydedd o gael ei ethol yn Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ers 2019.

Talodd yr Arweinydd deyrnged i staff y Cyngor sydd wedi gweithio'n ddiflino trwy nifer o heriau diweddar i gefnogi cymunedau RhCT. Siaradodd am y cymorth mae'n ei dderbyn gan y Grŵp Llafur, yn ogystal â chymorth gan uwch swyddogion sy'n gweithio'n galed i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon sy'n cael eu codi ac i gyflawni'r buddsoddiad wedi'i dargedu a gafodd ei bennu ochr yn ochr â Chynllun Corfforaethol y Cyngor. Roedd yr Arweinydd wedi gobeithio y byddai'r buddsoddiad cyfalaf uwch a phrosiectau ledled cymunedau RhCT yn parhau i wneud gwahaniaeth er budd trigolion a chymunedau RhCT. Aeth ati i gydnabod y cyfnod heriol sydd o'n blaenau ni ond ychwanegodd y byddai'n mynd i'r afael â'r heriau gyda chymorth pob Aelod, gan gynnwys cymorth pob grŵp gwleidyddol. Siaradodd am yr ymdrechion i gadw'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor mor isel â phosibl a dyma rywbeth y mae'r Cyngor wedi'i gyflawni am saith allan o'r naw mlynedd diwethaf.

I gloi, talodd yr Arweinydd deyrnged arbennig i'w Ddirprwy Arweinydd, y Cynghorydd M Webber, sydd wedi rhoi cymorth iddo drwy gydol y cyfnod yma, a rhoddodd ddiolch i bob Aelod y Cyngor.

### **Cadarnhau bod Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf yn cael ei benodi'n Arweinydd yr Wrthblaid.**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau penodiad Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol K Morgan yn Arweinydd yr Wrthblaid.

Llongyfarchodd Arweinwyr y Grwpiau eraill Arweinydd y Cyngor ac Arweinydd yr Wrthblaid.

## **4 Swyddogaethau Gweithredol**

**PENDERFYNWYD** nodi'r Cabinet a'u swyddogaethau unigol, fel y ganlyn: -

- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE, Arweinydd y Cyngor ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Isadeiledd a Buddsoddi
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Webber, Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Norris, Aelod o'r Cabinet ar faterion Datblygu a Ffyniant
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Lewis, Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Cyfranogiad Pobl Ifainc a'r Gymraeg
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Caple, Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol B Harris, Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd y Cyhoedd a Chymunedau
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings, Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden
- Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol C Leyshon, Aelod o'r Cabinet ar faterion

## 5 Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor

Yn ei adroddiad ar y cyd â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu wybod i Aelodau am ganlyniad yr adolygiad o Gydbwysedd Gwleidyddol yr Awdurdod ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023/24.

Amlygodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ganlyniadau'r adolygiad a gynhaliwyd a'r seddi sydd ar gael sydd angen eu llenwi gan y grwpiau gwleidyddol priodol fel y nodir yn nhablau A a B yr atodiad i'r adroddiad. Dywedodd fod Adran 5 yn gofyn bod y Cyngor yn penderfynu ar ddyraniad y rhybuddion o gynnig ar gyfer blwyddyn newydd y Cyngor.

### **PENDERFYNWYD-**

1. Mabwysiadu'r cynllun ar gyfer dyrannu seddi i'r gwahanol gyrff a grwpiau gwleidyddol y mae Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn gymwys iddo, fel y manylir yn yr Atodiad i'r adroddiad yma;
2. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu i benodi i gyrff gwleidyddol cytbwys, pan fydd yn derbyn hysbysiad o ddymuniadau'r grwpiau gwleidyddol, yn amodol ar dderbyn unrhyw geisiadau dilynol i newid aelodaeth y Pwyllgorau sydd wedi'u cyfeirio at y Cyngor;
3. Bod y dyraniad o ran cyflwyno Rhybuddion o Gynnig ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-2024 fel y ganlyn:-

Llafur - 12  
Plaid Cymru - 5  
Grŵp Annibynnol RhCT - 2  
Y Blaid Geidwadol - 1

## 6 PENODI AELODAU PWYLLGORAU 2023-2024

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad, a oedd yn gofyn am benodi Pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-2024.

**PENDERFYNWYD** penodi'r Pwyllgorau sydd wedi'u nodi isod ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-2024:

- a) Pwyllgor Cynllunio a Datblygu (x11 Aelod)
- b) Pwyllgor Trwyddedu (x11 Aelod)
- c) Pwyllgor Penodiadau (x5 Aelod)
- d) Pwyllgor Apeliadau / Apeliadau'r Gweithwyr / Apeliadau'r Prif

Swyddogion (x5 Aelod)

- e) Pwyllgor Trosolwg a Chraffu (x14 Aelod)
- f) Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant (x14 Aelod)
- g) Pwyllgor Craffu - Gwasanaethau Cymuned (x14 Aelod)
- h) Pwyllgor Craffu – Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant (x14 Aelod)
- i) Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (x6 Aelod)
- j) Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd (x17 Aelod)
- k) Pwyllgor Safonau (x2 Aelod)
- l) Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol (x8 Aelod)
- m) Pwyllgor y Gronfa Bensiwn (x5 Aelod)
- n) Cydbwyllgor Craffu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (x2 Aelod)

## **7 PENODI CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION PWYLLGORAU 2023-2024**

Yn ei adroddiad, roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yn gofyn i'r Cyngor ystyried penodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau'r Cyngor ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-2024, a **PHENDERFYNWYD**:

1. Penodi'r Aelodau canlynol i swyddi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion:
  - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu  
Cadeirydd – Y Cynghorydd S Rees  
Is-gadeirydd – Y Cynghorydd W Lewis
  - Pwyllgor Trwyddedu  
Cadeirydd – Y Cynghorydd A S Fox  
Is-gadeirydd – Y Cynghorydd G Stacey
  - Pwyllgor Penodiadau  
Cadeirydd – Y Cynghorydd S J Davies  
Is-gadeirydd – Y Cynghorydd M Webber
  - Pwyllgor Apeliadau / Apeliadau'r Gweithwyr / Apeliadau'r Prif Swyddogion  
Cadeirydd – Y Cynghorydd R Williams  
Is-gadeirydd – Y Cynghorydd L Addiscott
  - Pwyllgor y Gronfa Bensiwn  
Cadeirydd – Y Cynghorydd M Norris  
Is-gadeirydd – Y Cynghorydd M Ashford
2. Penodi Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor

Gwasanaethau Democrataidd a Chynghorydd y Fwrdeistref Sirol M Webber yn Is-gadeirydd ar y pwyllgor hwnnw, yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (y 'Mesur');

3. Cytuno y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fod yn gyfrifol am benodi'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ar gyfer y pwyllgor hwnnw, yn unol â'r adroddiad;
4. Bod penodiad Cadeirydd y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant yn cael ei ddyrannu i Grŵp Plaid Cymru;
5. Yn unol â'r enwebiadau a dderbyniwyd gan y Grwpiau Gwleidyddol priodol, bod yr Aelodau canlynol yn cael eu penodi'n Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu sydd wedi'u nodi isod:--

<b>Pwyllgor</b>	<b>Cadeirydd</b>	<b>Is-gadeirydd</b>
Trosolwg a Chraffu	J Edwards	B Stephens
Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant	C Middle	G Warren
Gwasanaethau Cymuned	J Bonetto	R Davis
Addysg a Chynhwysiant	Sera Evans	K Webb

6. Nodi penodiad y Dirprwy Lywydd, y Cynghorydd Sheryl Evans, yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol;
7. Nodi, yn dilyn pontio i un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Cwm Taf Morgannwg, y bydd adroddiad sy'n amlinellu'r trefniadau craffu newydd yn cael ei gyflwyno gerbron Aelodau ym mis Mehefin. Bydd yr adroddiad yn adlewyrchu'r diwygiad i'r trefniadau craffu ar y cyd sydd ar waith ar hyn o bryd;
8. Nodi y dylai unigolion sy'n cyflawni'r rolau Cadeiryddion canlynol dderbyn Cyflog Uwch yn unol ag argymhellion Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol (Hyd at uchafswm o 19):

Y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu
Y Pwyllgor Trwyddedu
Y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
Y Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant
Y Pwyllgor Craffu – Gwasanaethau Cymuned
Y Pwyllgor Craffu – Materion yr Hinsawdd, Gwasanaethau Rheng Flaen a Ffyniant
Y Pwyllgor Apeliadau
Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Pwyllgor y Gronfa Bensiwn

9. Nodi'r angen i gyhoeddi a chyflwyno'r rhestr o gydnabyddiaeth ariannol ar gyfer 2023-24 erbyn 31 Gorffennaf 2023.

## 8 CYRFF LLED FARNWROL/PWYLLGORAU AD HOC 2023-2024

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraidd ei adroddiad mewn perthynas â phenodi Aelodau i'r Cyrff Lled-Farnwrol/Pwyllgorau Ad Hoc ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023 - 2024, yn amodol ar gydbwysedd gwleidyddol y Cyngor fel y nodir yn adran 3 yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** penodi'r canlynol:

1. Pwyllgor Llywodraethwyr yr Awdurdod Addysg Lleol (Penodiadau) (5 Aelod). (4 Llafur, 1 Plaid Cymru):

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol R Lewis, G Stacey, J Brencher, S Hickman a Sera Evans

2. Panel Ymddeol yn Gynnar o Wirfodd / Ymddiswyddo (5 Aelod – 4 Llafur, 1 Plaid Cymru):

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol M Webber, L Tomkinson, J Bonetto, G Jones a D Grehan.

3. Cydbwyllgor Ymgynghori (4 Aelod):

Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A Crimmings, R Lewis, M Webber ac A Morgan OBE

## 9 CYRFF ALLANOL

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu ei adroddiad i ystyried penodi Aelodau i Gyrff Allanol a Chydbwyllgorau Anweithredol. Tynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth sylw Aelodau at y rôl wag ar Gorff Allanol Trivallis ar ôl i'r Cynghorydd B Stephens ymddiswyddo o'r rôl:-

**PENDERFYNWYD** – penodi'r Aelodau sydd wedi'u nodi isod i'r Cyrff Allanol ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-2024

- a) Age Concern Cymru (Y Cynghorydd G Caple)
- b) Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru (C.L.A.W.) (Y Cynghorydd C Leyshon)
- c) Pwyllgor Bowls Dan Do Cwm Cynon (Y Cynghorydd A Morgan OBE)
- ch) Elusen Edward Thomas (Y Cynghorwyr R Lewis, R Williams, A S Fox ac A Dennis)
- d) Cyngor Cyswllt Cymru (Y Cynghorwyr M Webber a C Leyshon)
- dd) The Alliance (Y Cynghorwyr G Jones, E Dunning a D Parkin)
- e) Pwyllgor Cyswllt Safle Glofa'r Tŵr (Y Cynghorwyr L Addiscott, S Emmanuel ac A Rogers)
- f) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Y Cynghorwyr A Morgan OBE, M Webber, C Leyshon, R Lewis ac A Crimmings)
- ff) Bwrdd Gweithredol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (Y Cynghorwyr A Morgan OBE a M Webber)
- g) Busnes mewn Ffocws (Y Cynghorydd M Norris)
- ng) Trivallis (Y Cynghorydd C Middle)



**PENDERFYNWYD** penodi cynrychiolwyr y Cyngor i'r Gydbwyllgorau Anweithredol canlynol:

- a) Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (Y Cyngorwyr S Bradwick, A Roberts, G Holmes a G Williams)
- b) Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (Y Cyngorwyr S Emmanuel)
- c) Panel Troseddau Heddlu De Cymru (Y Cyngorwyr B Harris a L Addiscott)

**(Noder:** Roedd yr Aelodau canlynol am gofnodi eu bod nhw wedi pleidleisio o blaid penodi'r Cyngorwyr A O Rogers fel cynrychiolydd i Gydbwyllgor Anweithredol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog:  
Y Cyngorwyr S Evans, D Grehan, A Ellis, P Evans, H Gronow, D Wood, S Trask, K Johnson, M Powell, C Lises, P Binning a D Evans)

## **10 CALENDR CYFARFODYDD 2023-2024**

Yn ei adroddiad, ceisiodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu gymeradwyaeth ar gyfer Calendr Cyfarfodydd 2023-2024 sydd wedi'i nodi yn Atodiad 1, a chyfeiriodd at yr hyblygrwydd fyddai ei angen gan fod modd i'r calendr newid yn sgil gofynion busnes y Cyngor.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth at ganlyniadau'r arolwg a gafodd ei gynnal yn unol ag Adran 6(2) o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac mae crynodeb i'w weld yn adran 4 yr adroddiad. Ychwanegodd, mewn perthynas â'r gofyniad statudol i gynnal arolwg i Aelodau o ran amseroedd cyfarfodydd, nad oes rheidrwydd ar y Cyngor i wneud newidiadau ar sail yr adborth yma. Cadeiryddion perthnasol fydd yn gyfrifol am benderfynu ar hyn yn unol â gofynion busnes y Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

1. Cytuno ar y Calendr o Gyfarfodydd arfaethedig ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-24, fel sydd wedi'i nodi yn Atodiad 1 yr adroddiad;
2. Nodi bod modd i'r calendr drafft yma newid, yn seiliedig ar ofynion busnes dros flwyddyn nesaf y Cyngor. Caiff unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau eu gwneud ar y cyd â chadeiryddion y pwyllgorau priodol;
3. Cytuno, ac eithrio cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu, na fydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ystod gwyliau'r ysgol, yn amodol ar anghenion busnes brys.

## **11 Adroddiadau Blynyddol 2022/23**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad a roddodd Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022/23 i'r Cyngor, gyda chyfle i'r Cadeiryddion gyfrannu at fusnes y ddau bwyllgor ar gyfer blwyddyn y Cyngor.

Cafodd Mr Christopher Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio,

a Chynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Edwards, Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, eu croesawu gan Aelodau er mwyn iddyn nhw gyflwyno eu hadroddiadau ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022/2023.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi cynnwys adroddiadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2022/23.

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.15 pm**

**Y Cynghorydd G Hughes  
Cadeirydd.**

## RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL

### COUNCIL

14 JUNE 2023

### MEMBERS QUESTIONS ON NOTICE

#### REPORT OF THE SERVICE DIRECTOR, DEMOCRATIC SERVICES & COMMUNICATION.

#### 1. PURPOSE OF THE REPORT

- 1.1 To present the order of questions in respect of the Members Questions on Notice, following the amendment to the process agreed at the [Council AGM 2019](#).

#### 2. RECOMMENDATIONS

It is recommended that Members:

- 2.1 Receive the Questions and any supplementary questions proposed, as in accordance with the running order advised upon in 4.3 of the report, which should not exceed a 20-minute time period.

#### 3. REASONS FOR RECOMMENDATIONS

- 3.1 As agreed at the Council AGM on the 15<sup>th</sup> May, 2019, Members agreed to amend Council Procedure Rule 9.2 in respect of Members Questions on Notice. A further amendment was made to Council Procedure Rule 9.2 at the Council AGM on the 26<sup>th</sup> May 2021 in respect of supplementary questions following expiry of the 20 minute time duration. [Council AGM 2021](#)

#### 4. MEMBERS QUESTION ON NOTICE

- 4.1 The closing date for receipt of Members Questions on Notice to the Council Business Unit for the Council meeting on the 14<sup>th</sup> June 2023 was 5pm on the 1<sup>st</sup> June 2023.
- 4.2 Thirty questions were received and put forward to the Council Ballot held on the 6<sup>th</sup> June 2023, to determine the running order of the questions at the Council Meeting.
- 4.3 The results of the ballot are outlined below, however since undertaking the ballot, the Proper Officer received notification from Councillor N. Morgan, advising that he would like to withdraw his question, which was drawn at 2. The revised order of questions is listed below:

Number	Corresponding Question
1	<p><b>Question from County Borough Councillor G. E. Williams to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:</b></p> <p>Ahead of the winter and the preparations for severe weather, will there be an opportunity for Members to have engagement and briefings on the preparations?</p>
2	<p><b>Question from County Borough Councillor J. Cook B.E.M. to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:</b></p> <p>“What support is available for food banks and similar local schemes in the coming year?”</p>
3	<p><b>Question from County Borough Councillor S. Emanuel to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:</b></p> <p>“Can the Leader please make a statement on capital investment in Rhondda Cynon Taf?”</p>
4	<p><b>Question from County Borough Councillor W. Hughes to the Deputy Leader of the Council and Cabinet Member for Council Business, County Borough Councillor M. Webber:</b></p> <p>“Can the Deputy Leader provide an update on the Council’s apprenticeship and graduate programmes?”</p>
5	<p><b>Question from County Borough Councillor S. Powderhill to the Cabinet Member for Environment and Leisure, County Borough Councillor A. Crimmings:</b></p> <p>“Can the Cabinet Member please provide an update on the works to improve Ynysangharad War Memorial Park?”</p>
6	<p><b>Question from County Borough Councillor R. Williams to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:</b></p> <p>“In light of the funding shortfall facing councils across Wales for next year, please can the Leader provide an update on discussions with other Council Leaders and Welsh Government?”</p>
7	<p><b>Question from County Borough Councillor G. O. Jones to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:</b></p>

	<p>“We have heard in recent months that the combined impacts of both Brexit and the war in Ukraine are having a profound effect on our construction industry. What does this mean for the Council and how can we mitigate these impacts?”</p>
8	<p><b>Question from County Borough Councillor A. J. Dennis to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:</b></p> <p>“What support and signposting services are available to residents in regards to the cost of living crisis?”</p>
9	<p><b>Question from County Borough Councillor D.R. Bevan to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:</b></p> <p>“Will the Leader update on the progress of the Tylorstown tip works?”</p>
10	<p><b>Question from County Borough Councillor A. Ellis to the Cabinet Member for Education, Youth Participation and Welsh Language, County Borough Councillor R Lewis:</b></p> <p>“There is no access to Welsh medium pre-school nursery provision for the children of Ynysybwl and Glyncoch. What is the council doing to replace this service and promote Welsh language in the area?”</p>
11	<p><b>Question from County Borough Councillor L. Addiscott to the Leader of the Council, County Borough Councillor A. Morgan OBE:</b></p> <p>“Following the wet winter we had, potholes have been an issue for councils across the country. Can the Leader therefore provide an update on the Council’s ongoing programme of investment in the County’s Highways network?”</p>
